Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

2023-2038

## Cytundeb Cyflawni

(Tachwedd 2023)



Geirfa ........ 5

Rhan 1 – Cyflwyniad a Chefndir ........ 13

1. Cyflwyniad ........ 13

2. Pwrpas y Cytundeb Cyflawni ........ 15

2.1 Pwrpas y Cytundeb Cyflawni ........ 15

2.2 Cyfnodau wrth Baratoi'r Cytundeb Cyflawni ........ 15

2.3 Strwythur y Cytundeb Cyflawni ........ 16

3. Y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ........ 18

3.1. Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ........ 18

3.2. Fformat a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ........ 19

3.3. Y CDLIA – Asesiadau Effaith ........ 20

3.4. Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd a Chydweithio Rhanbarthol ........ 21

3.5. Archwiliad Annibynnol ........ 21

Y Profion Cadernid ........ 22

3.6. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ........ 22

Rhan 2: Amserlen y CDLIA a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) ........ 24

4. Amserlen Cytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ........ 24

4.1 Cyfnodau Terfynol a Dangosol Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ........ 24

4.2 Cyfnodau Terfynol a Dangosol ........ 25

4.3 Cyfnodau Paratoi'r Cynllun ........ 25

4.3.1. Y Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5 - 10) ........ 25

4.3.2. Galwad am Safleoedd Ymgeisiol (Rheoliad 14(2)) ........ 26

4.3.3. Paratoi ac ymgynghori cyn-adnau (Strategaeth a Ffafrir) (Rheoliadau 14 i 16) ........ 27

4.3.4. Adneuo Cynigion yn Statudol (Rheoliadau 17 - 21) ........ 27

4.3.5. Cyflwyno'r CDLIA i'w Archwilio (Rheoliad 22) ........ 28

4.3.6. Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) ... 28
4.3.7. Derbyn Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) ... 28
4.3.8. Mabwysiadu (Rheoliad 25) ... 28
4.3.9. Monitro ac Adolygu Blynyddol (Rheoliad 41) ... 29
**5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) ... 30**
5.1. Nodau'r CIS ... 30
5.2. Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ... 30
5.3. Egwyddorion Ymgysylltu ... 30
5.4. Meithrin Consensws ... 32
5.5. Rôl Rhanddeiliaid a Phartïon â Diddordeb ... 32
5.5.1. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (KSG) ... 33
5.5.2. Aelodau Etholedig ... 33
5.5.3. Gweithgor CDLIA yr Aelodau. ... 33
5.5.4. Cynghorau Tref a Chymuned ... 34
5.5.5. Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyffredinol ac Eraill ... 35
5.5.6. Grwpiau Anodd eu Cyrraedd a Grwpiau â Nodweddion Gwarchodedig ... 36
5.5.7. Cronfa Ddata Ymgyngoreion y Cynllun Datblygu Lleol ... 37
5.5.8. Y Cyhoedd ... 38
5.5.9. Y Panel Dinasyddion ... 38
5.5.10. Cydlynwyr Ardal Leol ... 38
5.5.11. Cydweithio o fewn y Cyngor, gan gynnwys Gweithgorau Technegol (TWGs) ... 39
5.5.12. Cydweithio Rhanbarthol ... 39
5.5.13. Datblygwyr, Asiantau a Hyrwyddwyr eraill Safleoedd ... 39
5.6. Dulliau Ymwneud, Cyfranogi ac Ymgynghori ... 40
5.6.1. Digwyddiadau ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd ... 40
5.6.2. Yr Iaith Gymraeg ... 42
5.6.3. Argaeledd Dogfennau ... 43

5.6.4. Trefniadau Cyflwyno Adborth ar Sylwadau ........ 43
5.6.5. Deisebau ........ 44
5.6.6. Sylwadau a Gyflwynwyd yn Briodol ac yn Hwyr ........ 44
**6. Gwneud Penderfyniadau a Chyflawni ........ 45**
6.1. Gwneud Penderfyniadau a Chyflawni ........ 45
6.2. Adroddiadau Mewnol ........ 45
6.3. Cydweddu Corfforaethol ........ 45
6.4. Staffio ac Adnoddau Ariannol ........ 46
Sefyllfa'r Gyllideb ........ 47
6.5. Rheoli Risg ........ 47
**Rhan 3 – Monitro ac Adolygu ........ 49**
**7. Monitro ac Adolygu ........ 49**
7.1. Monitro ac Adolygu ........ 49
7.2. Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) ........ 49
7.3. Adolygu'r CDLIA ........ 50
Atodiad A – Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot - Amserlen ........ 52
Atodiad B – Cyfnodau Allweddol y CDLl, yr ACI a'r ARhC ........ 54
Atodiad C – Cyfnodau Paratoi'r Cynllun a Dulliau Ymgysylltu ........ 56
Atodiad D – Adolygiad o'r Cynllun Blaenorol ar gyfer Cynnwys y Gymuned (CC CDLl, Gorffennaf 2013) a (CC CDLIA, Ionawr 2022) ........ 72
Atodiad E- Proffil Cymunedol ........ 76
E.1. Poblogaeth ........ 79
E.2. Strwythur Oedran ........ 79
E.3. Ethnigrwydd ........ 80
E.4. Hunaniaeth Rhywiol ........ 82
E.5. Iechyd ........ 83
E.6. Anabledd ........ 84

E.7. Gofal Di-dâl ... 85
E.8. Nodweddion Aelwydydd ... 86
E.9. Gweithgarwch Economaidd ... 87
E.10. Segurdod economaidd ... 88
E.11. Enillion yn ôl Trigfan ... 89
E.12. Lefelau a Dosbarthiad Tlodi ... 89
E.13. Tlodi Tanwydd ... 91
E.14. Digartrefedd ... 91
E.15. Amcan o Nifer y rhai sy’n Cysgu Allan ... 92
E.16. Poblogaeth a Llety Sipsiwn a Theithwyr ... 92
Atodiad F – Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol ... 93
F.1. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (KSG) ... 93
F.2. Rhestr o’r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol ... 93
Atodiad G – Cyrff Ymgynghori Penodol ... 97
Cyrff Ymgynghori Penodol (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 CDLliau) ... 97
Atodiad H – Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Eraill ... 101
Cyrff Ymgynghori Cyffredinol (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 CDLliau) ... 101
Cyrff Ymgynghori Eraill ... 107
Atodiad I – Asesu a Lliniaru Risg ... 110

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Mabwysiadu | Y cyfnod olaf o baratoi'r CDLlA, lle mae'r CDLlA yn dod yn gynllun datblygu statudol ar gyfer yr ardal mae'n ei chwmpasu. |
| Gwaelodlin | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal. |
| Safle Ymgeisiol | Safle a enwebir gan unigolyn â buddiant mewn tir (h.y. tirfeddiannwr, datblygwr, asiant neu aelod o'r cyhoedd) i'w ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y CDLlA. Bydd pob Safle Ymgeisiol yn cael eu hasesu o ran addasrwydd i'w cynnwys fel dyraniadau posibl. |
| Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) | Mae Cynllun Cynnwys y Gymuned yn rhan o'r Cytundeb Cyflawni. Mae'n amlinellu'r egwyddorion ymgysylltu ac yn cynnwys manylion ynghylch sut bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid (gan gynnwys busnesau a datblygwyr) wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. |
| Cytundeb Cyflawni (CC) | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â'i Gynllun Cynnwys y Gymuned, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru gytuno â hi. |
| Adnau | Cyfnod ffurfiol o 6 wythnos pryd y gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y CDLlA. Yna gall Arolygydd edrych ar sylwadau sy'n ymwneud â 'chadernid' y cynllun |
| Cynllun Adnau | Drafft llawn o'r CDLlA yw hwn, fydd yn destun cyfnod ymgynghori ffurfiol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad cyhoeddus. |
| Lleoliad Adnau | Swyddfeydd y Cyngor lle gosodir gwybodaeth am y CDLlA, sef |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| | Canolfan Ddinesig Castell-nedd, SA11 3QZ<br><br>Canolfan Ddinesig Port Talbot, SA13 1PJ |
| A Wnaed yn Briodol | Sylwadau ar y cynllun datblygu a wnaed yn y modd cywir ac o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig |
| Ymgysylltu | Proses ragweithiol sy'n ceisio annog rhanddeiliaid a'r gymuned i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. |
| Sylfaen o Dystiolaeth | Gwybodaeth a data sy'n darparu sylfaen ar gyfer paratoi gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y CDLlA, ac yn cyfiawnhau cadernid y dull o ymdrin â pholisi a geir yn y CDLlA. |
| Archwiliad | Mae'r archwiliad yn cynnwys archwiliad cyhoeddus o'r CDLlA Adnau, y sylwadau Adnau, yr adroddiad ymgynghori, y sylfaen o dystiolaeth/dogfennau cefndir a'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cyflawnir hyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru. |
| Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb | Dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth yw'r rhain, a luniwyd i helpu sefydliadau i sicrhau bod eu polisïau, eu harferion, eu digwyddiadau a'u prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn deg, a heb fod yn cyflwyno rhwystrau i gyfranogiad unrhyw grwpiau gwarchodedig, nac yn eu rhoi o dan anfantais wrth gyfranogi. |
| Cymru'r Dyfodol | Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac mae'n dylanwadu ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru ac yn helpu i lunio a thywys Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn cyfeirio at asesu effeithiau cynllun (neu brosiect) yn erbyn amcanion cadwraeth natur safleoedd a ddynodwyd ar lefel |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| (ARhC) | Ewropeaidd, er mwyn gweld unrhyw effeithiau sylweddol tebygol. Mae ARhC hefyd yn canfod a fyddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar integriti'r safle. |
| Asesiad Effaith ar Iechyd | Mae Asesiad Effaith ar Iechyd yn gyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer sy'n mynd ati'n systematig i farnu potensial, ac weithiau effeithiau anfwriadol polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny yn y boblogaeth. Mae Asesiad Effaith ar Iechyd yn nodi camau gweithredu priodol ar gyfer rheoli'r effeithiau hynny. |
| Dangosydd | Dull o fesur newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cynnydd o ran cyflawni amcanion, targedau a pholisïau. |
| Adroddiad yr Arolygydd | Yr Adroddiad a baratoir gan Arolygydd annibynnol sy'n archwilio'r CDLlA. Bydd yr Arolygydd yn gweithio i PEDW ar ran Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion ar gynnwys y CDLlA terfynol, ac mae'n rhwymo'r Cyngor. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLlA yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd. |
| Partïon â Diddordeb | Unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni sydd am ymwneud â pharatoi'r CDLlA. |
| Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol | Rhanddeiliaid allweddol a fydd yn rhan o broses baratoi'r cynllun ar ei hyd. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) / Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) | Cynllun defnydd tir sy'n defnyddio gweledigaeth, strategaeth, a pholisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion ar gyfer meysydd newid a diogelu allweddol. Dangosir y dyraniadau a rhai polisïau yn ddaearyddol ar y Map o'r Cynigion sy'n |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| | rhan o’r Cynllun. Mae’r CDLl yn gynllun datblygu statudol y mae gofyn bod pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ei gynhyrchu. Ar hyn o bryd rydym ni’n gweithio ar y fersiwn ddiwygiedig. |
| Cydlynwyr Ardal Leol | Mae’r rhain yn gweithio mewn cymunedau lleol ac yn cynorthwyo unigolion a theuluoedd â gwybodaeth neu adnoddau ymarferol a allai fod ar gael iddyn nhw. Byddan nhw’n cynorthwyo trwy anfon gwybodaeth ymlaen at drigolion yn ystod cyfnodau ymgynghori. |
| Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) | Corff annibynnol a fydd yn gyfrifol am archwilio’r CDLlA yn ffurfiol. |
| Polisi Cynllunio Cymru (PCC) | Yn y ddogfen hon cyflwynir Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru, a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. |
| Cyn-Adnau | Cyfnodau paratoi ac ymgynghori ar y CDLlA cyn i’r Cynllun Adnau gael ei lunio’n derfyniol a’i gymeradwyo gan y Cyngor. Gellir cyfeirio at y cyfnod hwn hefyd fel cyfnod y Strategaeth a Ffafrir. |
| Strategaeth a Ffafrir | Yma cyflwynir cyfeiriad strategol cyffredinol y CDLlA. Mae hynny’n cynnwys lefel y twf a ffafrir, ynghyd â’r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu’r twf. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth, materion ac amcanion y Cynllun. Gellir cyfeirio at y cyfnod hwn hefyd fel y cyfnod Cyn-Adnau. |
| Datganiadau i’r Wasg | Mae hyn yn cynnwys datganiadau i’r wasg gan y Cyngor neu yn y cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys papurau newydd, radio, teledu fel sy’n briodol. Gall y cyfryngau ddewis peidio ag argraffu neu ddarlledu eitem. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Rheoliadau | Cyflwynir rheoliadau yn Offerynnau Statudol Cymru. Nhw sy’n darparu’r fframwaith ar gyfer paratoi’r CDLlA. |
| Adroddiad Ymgynghori | Adroddiad Ymgynghori yw un o’r dogfennau y mae gofyn ei gyflwyno ar gyfer archwiliad annibynnol. Mae gofyn cyflwyno adroddiad ymgynghori cychwynnol hefyd ar gyfer y cyfnod cyn-adnau. |
| Cynrychiolaethau | Sylwadau a dderbynnir mewn perthynas â’r CDLlA, naill ai o blaid, neu yn erbyn. |
| Adroddiad Adolygu | Mae’r Adroddiad Adolygu yn rhoi trosolwg o’r materion a ystyriwyd fel rhan o’r broses adolygu lawn, ac yn nodi newidiadau sy’n debygol o fod yn angenrheidiol i’r CDLlA, ar sail tystiolaeth. Mae hefyd yn nodi’r math o drefniadau diwygio a ddilynir wrth ddiwygio’r CDLl. |
| Rhychwantu | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder arfarniad cynaliadwyedd (AC) integredig, gan gynnwys yr effeithiau cynaliadwyedd a’r opsiynau mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i’w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad ACI. |
| Profion Cadernid | Er mwyn mabwysiadu CDLlA, rhaid i’r Arolygydd Cynllunio benderfynu ei fod yn ‘gadarn’. Cyflwynir y Profion Cadernid yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020). Mae tri phrawf er mwyn dyfarnu mewn perthynas â’r cynllun yn ei gyfanrwydd. Datblygwyd fframwaith ar gyfer asesu cadernid CDLliau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. |
| Rhanddeiliaid | Pobl y mae CDLlA (a/neu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio ar eu buddiannau, ac sydd fel arfer yn ymwneud â hynny trwy gyrff cynrychioliadol. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cynllun Datblygu Strategol (CDS) | Offeryn yw Cynllun Datblygu Strategol sy'n cwmpasu materion trawsffiniol fel tai a thrafnidiaeth. Fe'i paratoir gan Banel Cynllunio Strategol ar draws rhanbarth. Rhaid i ACLlau gymryd y CDS i ystyriaeth wrth ddatblygu eu CDLliau. Yn achos CNPT, Rhanbarth De-orllewin Cymru fyddai dan sylw. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiadau amgylcheddol yng nghyswllt polisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Cyfarwyddeb Strategol Asesiadau Amgylcheddol Ewrop (2001/42/EC) yn gofyn bod "rhai cynlluniau a rhaglenni yn destun asesiad amgylcheddol ffurfiol, gan gynnwys rhai ym meysydd cynllunio a defnydd tir |
| Cyflwyno | Pan gyflwynir y CDLlA, yr ACI a'r ARhC yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio'n annibynnol gan Arolygydd a benodir gan Lywodraeth Cymru |
| Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) | Mae'r rhain yn darparu canllawiau mwy penodol, neu safle-benodol, ar gymhwyso Polisïau'r CDLlA. Maen nhw'n darparu gwybodaeth atodol ynghylch polisïau CDLl. Nid yw'r CCA yn rhan o'r CDLlA, ac ni fyddant yn destun archwiliad annibynnol. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) | Mae AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cynllun o'r cychwyn. Drwy wneud hynny bydd yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau, gan gynnwys CDLliau, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). O dan Adran 62(6) o'r Ddeddf mae gofyn bod pob ACLl yn cynnal AC o'u Cynllun Datblygu Lleol. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| | Mae'r math yma o arfarniad cynaliadwyedd yn ymgorffori'n llawn ofynion y Gyfarwyddeb Strategol ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol. |
| Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd<br>(AAC) | Dogfen y mae gofyn ei chynhyrchu fel rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gynaliadwyedd yn sgîl gweithredu CDLl, sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Gyfarwyddeb SEA. Mae Adran 62(6) o'r Ddeddf yn gofyn bod pob ACLl yn paratoi adroddiad o ganfyddiadau AC y CDLl. Mae'n rhan annatod o'r broses o lunio'r cynllun datblygu. |
| De-orllewin Cymru | Rhanbarth De-orllewin Cymru, fel y'i diffinnir yn Cymru'r Dyfodol |
| Gweithgorau Technegol | Sefydlir gweithgorau technegol i ddelio â materion penodol, e.e. tai fforddiadwy, gwelliannau seilwaith, er mwyn helpu i symud y cynllun yn ei flaen. |
| Amserlen | Dyma sy'n cyflwyno'r dyddiadau pryd y disgwylir i gyfnodau a phrosesau allweddol paratoi'r CDLlA gael eu cwblhau. Mae'r rhain yn derfynol ar gyfer camau hyd at adneuo'r CDLlA, ac yn ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill wedi hynny. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddfwriaeth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gofyn bod cyrff cyhoeddus, megis awdurdodau lleol, yn rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd hirdymor yn eu meddylfryd er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru. Rhaid i awdurdodau lleol weithio tuag at y saith nod llesiant a gweithredu'r pum dull o weithio a gyflwynir yn y Ddeddf. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Gweithdy | Lle caiff rhanddeiliaid gyfle i fod yn rhan o drafodaethau grŵp a sesiynau ymarferol gydag allbwn wedi'i ysgrifennu neu ei luniadu. |
| Asesiad Effaith ar y Gymraeg | Cynhelir Asesiadau Effaith ar y Gymraeg i sicrhau bod pob cynnig yn hybu ac yn hwyluso'r Gymraeg. |

# Rhan 1 – Cyflwyniad a Chefndir

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal. Mabwysiadwyd CDLl Castell-nedd Port Talbot (CNPT) ym mis Ionawr 2016. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (Fel y'u newidiwyd) yn gofyn bod CDLliau yn cael eu hadolygu o leiaf bob 4 blynedd ar ôl eu mabwysiadu. O ganlyniad, cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Adolygu yn 2020. Mae'r Adroddiad Adolygu yn amlinellu cwmpas cyffredinol adolygiad y CDLl, wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau), ac yn dod i'r casgliad y dylid paratoi CDLl Amnewid (CDLlA). Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLlA yn disodli CDLl presennol CNPT ac yn dod yn rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040.

1.2. Fel cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLlA, mae gofyn bod y Cyngor yn paratoi Cytundeb Cyflawni (CC) sy'n nodi'r amserlen, Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni'r cynllun. Bwriedir i hwn fod yn ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad, ac yn offeryn rheoli prosiect. Ar ôl cytuno arno'n ffurfiol, mae'r CC yn rhwymo'r Cyngor i gynhyrchu'r CDLlA yn unol â'r amserlen a'r CIS. Mae hynny'n ffurfio rhan o brofion cadernid y CDLl, a fydd yn cael eu harchwilio gan yr Arolygydd Cynllunio yn yr Archwiliad Cyhoeddus.

1.3. Wedi i Lywodraeth Cymru (LlC) gymeradwyo'r CC ar 11 Ionawr 2022, cychwynnodd Cyngor CNPT y broses ffurfiol o baratoi CDLlA CNPT (2011-2036). Yn unol â'r CC, cynhaliwyd Galwad am Safleoedd rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mai 2022, a chyflwynwyd cyfanswm o 229 o safleoedd.

1.4. Mae canfyddiadau cychwynnol yr Alwad am Safleoedd, ynghyd â gwybodaeth a gafwyd o'r AMBau a'r rhagolygon twf, yn dangos bod angen nodi tir ychwanegol ar gyfer tai, yn ogystal â'r seilwaith presennol, a bod materion dichonoldeb y mae angen amser ychwanegol i'w datrys.

1.5. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi'r gorau i baratoi'r CDLlA a dechrau eto. Mae'r CC hwn yn amlinellu'r terfynau amser ar gyfer paratoi'r CDLlA newydd, a fydd yn cwmpasu cyfnod o 2023-2038 ar gyfer y cynllun, gan gychwyn gyda Galwad am Safleoedd ym mis Tachwedd 2023.

1.6. Mae'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a chanllawiau cynllunio LlC y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael ar wefan LlC. Mae gwybodaeth ynghylch y CDLlA ar gael ar wefan CNPT. Mae'r CC hwn hefyd ar gael yn Saesneg. Os bydd angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat arall, cysylltwch â thîm y CDLl ar ldp@npt.gov.uk neu 01639 686821.

# 2. Pwrpas y Cytundeb Cyflawni

## 2.1 Pwrpas y Cytundeb Cyflawni

2.1.1. Mae'r CC yn un o ofynion statudol y broses o baratoi'r Cynllun o dan Reoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLliau)(Cymru) 2005 (fel y'u Newidiwyd), ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan y Cyngor a LlC. Ei bwrpas yw darparu'r canlynol:

- Amserlen yn amlinellu gwahanol gyfnodau'r broses o baratoi'r cynllun, ynghyd ag amserlen ar gyfer ymgysylltu;
- Manylion Cynllun Cynnwys y Gymuned, yn amlinellu pwy fydd yn ymwneud â'r broses o baratoi'r CDLIA, a phryd bydd ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn digwydd; a'r
- Adnoddau y bydd yr Awdurdod yn eu buddsoddi wrth baratoi'r cynllun.

2.1.2. Bydd y CC yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac os bydd angen, caiff ei newid yn unol â'r Rheoliadau CDLl (gweler Rhan 3).

2.1.3. Mae'r CC yn cymryd i ystyriaeth ofynion y Rheoliadau CDLl ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r CC, a hefyd y pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015). Bernir bod lefel a ffurf yr ymgysylltu a gynigir yn addas i'r cyd-destun lleol, ac fe'i newidiwyd i gynnwys arferion ychwanegol a fu'n effeithlon ac yn dderbyniol yn ystod pandemig Covid-19 (megis cyfarfodydd o bell a gweithdai).

## 2.2 Cyfnodau wrth Baratoi'r Cytundeb Cyflawni

2.2.1. Mae nifer o gyfnodau wrth baratoi CC. Gan fod y CC cychwynnol ar gyfer y CDLlA wedi'i gymeradwyo yn ôl ym mis Ionawr 2022, nid yw'r Cyngor yn cynnig newid elfennau unigol y CC ei hun yn sylweddol, dim ond yr amserlen ar gyfer cyflawni. O ganlyniad, dangosir y cyfnodau paratoi sydd ar ôl i'w cwblhau isod yn nhabl 2.2.1:

*Tabl 2.2.1: Cyfnodau Paratoi'r CC:*

| Cyfnod | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Paratoi CC drafft mewn trafodaeth gyda LlC | Wedi'i gwblhau |
| 2. Ystyried unrhyw sylwadau a diwygio yn ôl y galw | Wedi'i gwblhau |
| 3. Sicrhau cymeradwyaeth Uwch Swyddogion ac Aelodau i ddrafft ymgynghori'r CC | Y Cyfnod Presennol |
| 4. Ymgysylltu ynghylch y CC drafft | Y Cyfnod Presennol |
| 5. Ystyried sylwadau a ddaeth i law a'u diwygio fel sy'n briodol | Y Cyfnod Presennol |
| 6. Sicrhau penderfyniad gan y Cyngor (Rheoliad CDLl 9) i fabwysiadu'r CC diwygiedig/terfynol | Y Cyfnod Presennol |
| 7. Cyflwyno i LlC ar gyfer cytundeb | Y Cyfnod Presennol |
| 8. Unwaith bydd LlC wedi cytuno arno, cyhoeddi'r CC cytunedig ar wefan y CDLlA, hysbysu'r cyrff ymgynghori perthnasol (Rheoliad CDLl 10), a'i adolygu'n barhaus, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei baratoi'n unol ag ef. | Y Cyfnod Presennol |

## 2.3 Strwythur y Cytundeb Cyflawni

2.3.1. Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

2.3.2. **Rhan 1 Cyflwyniad a Chefndir** Mae'n amlinellu pwrpas, strwythur a chyfnodau paratoi'r CC, ac yn ystyried ffurf a chynnwys y CDLlA; materion fydd yn llywio datblygiad y CDLlA; cyfleoedd i weithio ar y cyd; Archwilio'r Cynllun; a pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).

2.3.3. **Rhan 2 Amserlen y CDLlA a Chynllun Cynnwys y Gymuned** Mae'r amserlen yn nodi gwahanol gyfnodau'r broses o baratoi'r Cynllun (gan gynnwys dyddiadau terfynol a dangosol), sut bydd y Cyngor yn rheoli'r broses, ac yn darparu asesiad o'r adnoddau sy'n ofynnol. Mae hefyd yn sefydlu dyddiadau allweddol ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r adroddiadau ACI a dogfennau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

2.3.4. O ran Cynllun Cynnwys y Gymuned, mae’n canolbwyntio ar brif egwyddorion ymgysylltu – nodau’r CIS, sut bydd consensws yn cael ei feithrin a’i ddatblygu, ac ystyried ble bydd y ffocws ar ymgysylltu wrth baratoi’r Cynllun. Mae’n nodi â phwy bydd y Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori, a sut bydd hynny’n digwydd.

2.3.5. **Rhan 3 Monitro ac Adolygu** Mae’r adran hon yn amlinellu sut bydd y CC yn cael ei adolygu’n barhaus, a beth yw rôl yr AMB.

# 3. Y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

3.0.1. Bydd y CDLlA yn cwmpasu'r cyfnod o 2023 i 2038. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLlA yn disodli CDLl presennol CNPT (2011-2026) ac yn dod yn rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer yr Awdurdod, ochr yn ochr â 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' (y cyfeirir ato fel Cymru'r Dyfodol).

## 3.1. Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

3.1.1. Bydd y CDLlA yn ddylanwad pwysig ar ffurf CNPT a'i gymunedau unigol yn y dyfodol. Bydd gofyn ei fod yn :

- Cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol;
- Cefnogi canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy Cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru (PCC);
- Cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), gan gynnwys y saith Nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio;
- Sicrhau bod cydweithio rhanbarthol effeithiol yn llywio'r broses o baratoi'r cynllun;
- Sicrhau bod y CDLlA wedi'i integreiddio'n llawn â chynlluniau a mentrau eraill perthnasol, ac yn adlewyrchu'r un nodau, gan gynnwys yr angen am gydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) sy'n dod i'r amlwg ar gyfer De-orllewin Cymru;
- Sicrhau bod y profion cadernid yn cael eu bodloni;
- Cael ei lywio gan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad Effaith ar Iechyd, ac Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg;
- Bodloni'r Ddyletswydd Sosio-economaidd o dan Ran 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Bodloni'r Ddyletswydd o dan Ran 1, Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwydnwch ecosystemau.

- Mabwysiadu dull strategol o ystyried goblygiadau gofodol penderfyniadau datblygu, a gweithredu fel sail ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson ynghylch defnyddio a datblygu tir;
- Llywio swm a lleoliad y datblygu newydd yn CNPT;
- Adlewyrchu dyheadau lleol, ar sail gweledigaeth y cytunwyd arni gan y gymuned a rhanddeiliaid;
- Ymdrin â meysydd a dulliau polisi newydd (e.e. Creu Lleoedd a Seilwaith Gwyrdd);
- Llywio twf a newid, ochr yn ochr â diogelu amrywiaeth lleol, cymeriad ac amgylcheddau sensitif;
- Bod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac ystyried yr holl ddewisiadau amgen dichonadwy;
- Nodi sut a ble bydd newid yn digwydd dros gyfnod y Cynllun; a
- Llywio lleoliad prosiectau newydd arian cyhoeddus/grantiau a chydlynu seilwaith newydd a ddarperir, megis priffyrdd ac ysgolion.

3.1.2. Bydd ffocws ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r gymuned a gweithio ar y cyd ar hyd y broses, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn berthnasol, yn gynhwysol ac yn ennyn diddordeb cymunedau lleol. Mae’n hanfodol bod y broses yn dryloyw ac yn cael ei hesbonio’n llawn, er mwyn cynnal hyder cymunedau a rhanddeiliaid yn y CDLlA.

3.1.3. Mae’r gwaith o baratoi’r CDLIA yn cael ei reoleiddio gan ofynion a chanllawiau manwl, a bydd yn destun amserlen gaeth, y cytunir arni gyda LIC. Mae’r canllawiau’n nodi bod LIC yn disgwyl i gynlluniau amnewid gael eu paratoi o fewn 3.5 mlynedd wedi cytuno’n ffurfiol ar y CC (gyda darpariaeth ar gyfer un cyfnod llithro o 3 mis yn unig). Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ym Mhennod 4.

## 3.2. Fformat a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

3.2.1. Rhagwelir y bydd y CDLIA yn dilyn fformat tebyg i’r CDLI presennol, er bod yr Adroddiad Adolygu yn nodi y bydd angen ailasesu a/neu ddiwygio sawl maes Polisi. Bydd angen i’r CDLIA gydymffurfio’n gyffredinol â Dyfodol Cymru, y CDS

sy'n dod i'r amlwg yn Ne-orllewin Cymru, a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Cenedlaethol.

## 3.3. Y CDLlA – Asesiadau Effaith

3.3.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) o'r CDLlA, ac yn adrodd ei ganfyddiadau fel rhan annatod o'r broses o baratoi'r Cynllun. Ar ben hynny, mae deddfwriaeth ar wahân (Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (Rheoliadau AAS) 2004) yn gofyn bod cynlluniau'n destun AAS. Yn unol â chanllawiau LlC, y bwriad yw integreiddio'r AAS a'r AC, er mwyn llywio'r broses o baratoi'r cynllun mewn modd atgyfnerthol.

3.3.2. Yn ogystal â'r gofynion o ran AC ac AAS, mae nifer o asesiadau statudol eraill, sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf Cydraddoldeb (2010), ac Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg a Iechyd yn ofynnol. Y bwriad yw cyfuno'r asesiadau hyn mewn un ACI, er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod yr holl agweddau perthnasol yn derbyn sylw mewn un ddogfen. Mae'n rhaid hefyd asesu a chydymffurfio â'r Ddyletswydd sosio-economaidd o dan Ran 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3.3.3. Fodd bynnag, cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar wahân, yn unol â'r canllawiau statudol, gan fod hynny'n defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol. Cynhelir ARhC lle nodir y gallai unrhyw gynllun neu raglen effeithio ar safle Natura 2000 ddynodedig (Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA), Ardal Ddiogelu Arbennig (ADdA), neu safle Ramsar), ac mae angen iddo fod yn ddarostyngedig i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd).

3.3.4. Un o ofynion y Rheoliadau yw bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn cymryd i ystyriaeth Adroddiad Amgylcheddol yr AAS (h.y. casgliadau'r AAS) wrth wneud penderfyniadau, gan ddangos sut cymerwyd canlyniadau'r asesiad i ystyriaeth, a rhoi'r rhesymau dros ddewis y Cynllun fel y'i mabwysiadwyd yng ngoleuni dewisiadau amgen eraill rhesymol. Caiff yr ACI ei baratoi gyda chyfranogiad y Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol (a nodwyd yn y Rheoliadau), a bydd yr ymgynghori'n digwydd ochr yn ochr â'r ymgynghori ar y CDLlA.

3.3.5. Mae'r cyfnodau allweddol sy'n rhan o baratoi ACI ac ARhC y CDLlA, ynghyd â'r amserlen arfaethedig, i'w gweld yn Atodiadau A a B.

## 3.4. Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd a Chydweithio Rhanbarthol

3.4.1. Mae cydweithio yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn rhan o'r cyntaf o'r tri Phrawf Cadernid a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (h.y. Ydy'r Cynllun yn Ffitio? – gweler yr adran am yr Archwiliad Annibynnol isod). Bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob cyfle i weithio ar y cyd a chydweithio wrth baratoi'r cynllun a ffurfio tystiolaeth yn cael eu harchwilio'n llawn. Mae perthynas waith agos wedi cael ei meithrin gyda'r Awdurdodau cymdogol (Cynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Powys, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

3.4.2. Ar hyn o bryd, fel y manylir yn yr Adroddiad Adolygu, ni ragwelir bod modd cynnal CDLl ar y cyd ag Awdurdod cymdogol oherwydd y terfynau amser mae pob Awdurdod yn eu dilyn.

3.4.3. Yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLlA bydd angen i'r Cyngor ystyried yn fanwl oblygiadau'r CDS sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae trafodaethau ynghylch y CDS yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru i ystyried pa adnoddau a chwmpas sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith. Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer y rhanbarth, a chynhyrchwyd nifer o astudiaethau ar y cyd, gan gynnwys y Diffiniad o Ardal Twf Genedlaethol (NGA) a Chynllun Masnachu Credyd Maetholiion. Paratoir y CDS ochr yn ochr â CDLlA CNPT 2023-2038, gan dîm a benodir gan is-bwyllgor CDS y CJC. Bydd angen i CDLlA CNPT gydymffurfio'n gyffredinol â'r CDS sy'n datblygu ar gyfer De-orllewin Cymru.

3.4.4. Bydd angen hefyd i'r CDLlA gyfateb i bolisïau Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i Ranbarth De-orllewin Cymru, megis Bae Abertawe ac Ardal Twf Cenedlaethol Llanelli.

## 3.5. Archwiliad Annibynnol

3.5.1. Mae gofyn bod y Cyngor yn cyflwyno'i CDLlA Adnau, y dogfennau cysylltiedig a'r cynrychiolaethau i LlC, er mwyn i Arolygydd a benodir gan LlC ystyried ei

"gadernid" mewn "Archwiliad Cyhoeddus". Bydd yr Arolygydd yn rhoi sylw i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r Cynllun a'r cynrychiolaethau a ddaeth i law yn y cyfnod Adnau er mwyn pennu a yw'r Cynllun yn bodloni'r profion cadernid canlynol:

| **Y Profion Cadernid** |
| --- |
| Gofynion Paratoi:<br>• Ydy'r gwaith paratoi wedi cydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoliadol? (Rheoliadau CDLliau, CIS, Rheoliadau AAS, AC, ARhC etc.)<br>• Ydy'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r NDF (Cymru'r Dyfodol fel y'i gelwir bellach) a/neu'r CDS? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn eu tro)<br><br>Prawf 1: Ydy'r cynllun yn ffitio? (h.y. ydy hi'n amlwg bod y CDLIA yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)<br><br>Prawf 2: Ydy'r cynllun yn briodol? (h.y. ydy'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)<br><br>Prawf 3: Fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. ydy'r cynllun yn debygol o fod yn effeithiol?) |

3.5.2. Yn wyneb y profion uchod, mae'n hanfodol bod y CDLIA wedi'i seilio ar sylfaen gadarn o dystiolaeth, a bod ei ffurf a'i gynnwys fel y rhagnodwyd gan y Rheoliadau a threfniadau ymgynghori.

3.5.3. Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cynhyrchu adroddiad yn argymell newidiadau i'r CDLIA, ynghyd â rhesymau am y newidiadau. Mae argymhellion yr Arolygydd yn rhwymo'r Awdurdod, ac os ceir bod y Cynllun yn gadarn, rhaid i'r ACLl fabwysiadu'r CDLIA trwy benderfyniad o fewn 8 wythnos i'w dderbyn, oni bai bod LlC yn camu i mewn.

## 3.6. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

3.6.1. Dogfennau anstatudol yw CCAiau, ac fe’u paratoir i ymhelaethu ar bolisïau neu gynigion sy’n rhan o’r CDLIA. Gallant ymwneud â phynciau neu bolisïau penodol sy’n rhan o’r cynllun, neu gallant fod hefyd ar ffurf 'Cynlluniau Lle' newydd ar lefel leol. Bydd yr angen am adolygu CCA sydd eisoes yn bodoli a pharatoi CCA newydd yn cael ei ystyried fel rhan o’r broses o baratoi’r CDLIA. Bydd y cyfnod Cyn-Adnau/Strategaeth a Ffafrir yn adeg allweddol ar gyfer nodi unrhyw CCA newydd sy’n angenrheidiol. Ymgynghorir â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y broses o gynhyrchu CCA.

3.6.2. Lle bydd CCA yn cynorthwyo dealltwriaeth y CDLIA fe’u paratoir ac ymgynghori arnyn nhw fel rhan annatod o’r broses ymgysylltu, fel y nodir yn y CC hwn.

# Rhan 2: Amserlen y CDLIA a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)

## 4. Amserlen Cytundeb Cyflawni y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

### 4.1 Cyfnodau Terfynol a Dangosol Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid

4.1.1 Mae'r amserlen sy'n manylu ar wahanol gyfnodau proses y CDLIA a sut rheolir y prosiect hwn, ynghyd â'r adnoddau sy'n ofynnol i'w baratoi, yn rhan allweddol o'r CC. Mae'r tablau sy'n dilyn yn amlinellu'r cyfnodau allweddol arfaethedig a'r amserlen ar gyfer y broses o baratoi'r CDLIA, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau ar gyfer CDLliau. Ceir amserlen fanylach yn Atodiadau A ac C. Amlinellir cyfnodau allweddol paratoi'r CDLIA, ochr yn ochr â'r ACI, yn Atodiad B.

*Tabl 4.1.1: Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid: Cyfnodau Terfynol*

| Cyfnod Allweddol | Cyfnod wrth Baratoi'r CDLIA | Amserlen |
|---|---|---|
| 1 | Cytundeb Cyflawni | Tachwedd 2023 |
| 2 | Cyfranogiad/Paratoadau Cyn-Adnau (Rheoliad 14) | Tachwedd 2023 - Medi 2024 |
| 2 | Galwad am Safleoedd Ymgeisiol | Tachwedd 2023 - Rhagfyr 2023 |
| 3 | Ymgynghoriad Cyn-Adnau (Strategaeth a Ffafrir) – (Rheoliad 15) | Tachwedd 2024 – Rhagfyr 2024 |
| 4 | Cyfranogiad/Paratoadau Adnau | Rhagfyr 2024 – Medi 2025 |
| 4 | Ymgynghori ar y CDLIA Adnau (Rheoliad 17) | Tachwedd 2025 – Rhagfyr 2025 |

*Tabl 4.1.1: Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid: Cyfnodau Dangosol*

| Cyfnod Allweddol | Cyfnod wrth Baratoi'r CDLIA | Amserlen |
|---|---|---|
| 5 | Cyflwyno'r CDLIA i LIC i'w archwilio (Rheoliad 22) | Mehefin 2026 |
| 6 | Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) | Medi 2026 – Rhagfyr 2026 |
| 7 | Derbyn a Chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Chwefror 2027 |
| 8 | Mabwysiadu'r CDLIA (Rheoliad 25) | Ebrill 2027 |
| 9 | Monitro ac Adolygu | April 2028 |

## 4.2 Cyfnodau Terfynol a Dangosol

4.2.1 Mae'r Rheoliadau ar gyfer CDLliau yn darparu ar gyfer amserlen dau gyfnod – cyfnod terfynol a chyfnod dangosol.

4.2.2 Y cyfnodau terfynol (cyfnodau 1-4) yw'r rhai hyd at a chan gynnwys cyfnod y Cynllun Adnau. Gan fod y cyfnodau hyn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor, bernir bod yr amserlenni a amlinellir uchod yn realistig ac yn gyflawnadwy.

4.2.3 Mae'r cyfnodau dangosol (cyfnodau 5-9) yn ymwneud â'r cyfnodau hynny o broses y CDLIA ar ôl Adneuo a hyd at a chan gynnwys Mabwysiadu. Mae'r cyfnodau hyn yn dibynnu ar amrywiol ffactorau a dylanwadau allanol, megis nifer y sylwadau adnau a ddaw i law, ac o ganlyniad mae'r dyddiadau a nodir yn ddangosol. Wedi i'r cyfnod ymgynghori statudol ar y Cyfnod Adnau ddod i ben, a chyn i'r cynllun gael ei gyflwyno, bydd y Cyngor yn diweddaru'r amserlen ag amseriadau terfynol ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill o'r cynllun.

## 4.3 Cyfnodau Paratoi'r Cynllun

### 4.3.1. Y Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5 - 10)

4.3.1.1. Mae'r CC yn darparu llinell amser sy'n dangos y cyfnodau allweddol wrth baratoi'r cynllun er mwyn mabwysiadu'r CDLIA. Mae hefyd yn cynnwys Cynllun Cynnwys y

Gymuned (CIS) sy'n nodi sut a phryd bydd rhanddeiliaid yn ymwneud â datblygiad y CDLIA, a phwy fydd y rhanddeiliaid hynny. Bydd Rhanddeiliaid ac Ymgyngoreion Cyffredinol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r penderfyniad i gynhyrchu CDLIA, a bydd gofyn iddynt ymwneud â datblygiad y Cynllun. Rhaid i'r CC newydd gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan yr ACLl, a'i gytuno gyda LlC (Rheoliad 9). Rhaid cytuno ar unrhyw lithriadau i amserlen y Cynllun gyda LlC.

### 4.3.2. Galwad am Safleoedd Ymgeisiol (Rheoliad 14(2))

4.3.2.1. Wedi i'r CC gael ei gyhoeddi, y cyfnod ffurfiol cyntaf o baratoi'r CDLIA yw'r cais am enwebiadau ar gyfer safleoedd (Rheoliad 14 (2)). Gelwir y rhain yn "Safleoedd Ymgeisiol", a chysylltir â'r holl ymgyngoreion ac aelodau o'r cyhoedd sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o ddatblygiad y Cynllun. Lle mae gan y Cyngor fanylion cyswllt diweddar, cysylltir hefyd â thirfeddianwyr, hyrwyddwyr safleoedd a datblygwyr dyraniadau safle sydd heb eu datblygu yn y CDLl presennol. Cynhelir ymgyrch gyhoeddusrwydd gynhwysfawr yn ystod yr "Alwad am Safleoedd Ymgeisiol" a'r cyfnod sy'n arwain at hynny. Er gwybodaeth, cynhaliwyd Galwad am Safleoedd Ymgeisiol rhwng mis Mawrth a mis Mai 2021, a'r bwriad yw bod y safleoedd hynny'n cael eu cyflwyno a'u hystyried fel rhan o'r Cyfnod newydd hwn wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Cynllun, ochr yn ochr â safleoedd a nodwyd fel rhan o'r Alwad newydd ychwanegol hon am Safleoedd Ymgeisiol.

4.3.2.2. Cyhoeddir Adroddiad Rhychwantu'r ACI ochr yn ochr â Methodoleg Asesu'r Safleoedd Ymgeisiol i sicrhau tryloywder wrth asesu safleoedd ymgeisiol.

4.3.2.3. Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) o'r holl safleoedd a ddaeth i law yn ystod yr "Alwad am Safleoedd Ymgeisiol" yn cael ei pharatoi a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd ar gael mewn Lleoliadau Adnau ar ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus Cyn-adnau (Rheoliad 15), pryd y bydd modd cyflwyno sylwadau ar y safleoedd hyn. Dyma'r Lleoliadau Adnau:

- Canolfan Ddinesig Castell-nedd SA11 3QZ
- Canolfan Ddinesig Port Talbot SA13 1PJ

### 4.3.3. Paratoi ac ymgynghori cyn-adnau (Strategaeth a Ffafrir) (Rheoliadau 14 i 16)

4.3.3.1. Yn ystod cyfnod y ‘paratoadau cyn-adnau’, bydd y Cyngor yn ymgymryd â’r canlynol:

- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol;
- Asesu cynaliadwyedd, dichonoldeb a chyflawnadwyedd y Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd;
- Datblygu (a/neu ddiweddaru) y Sylfaen o Dystiolaeth; a
- Chynnal cyfarfodydd wedi’u targedu gyda rhanddeiliaid i helpu i lunio’r sylfaen o dystiolaeth.

4.3.3.2. Cynhelir cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos ar y ddogfen ‘cyn-adnau’ sy’n cynnwys y strategaeth a ffafrir gan y Cyngor (gan gynnwys Cyfranogiad ACI). Rhoddir cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar y Strategaeth a Ffafrir, yn ogystal â’r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

4.3.3.3. Bydd sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn yn helpu i sicrhau dealltwriaeth o’r prif faterion sy’n codi. Bydd angen i’r Cyngor gynhyrchu adroddiad ymgynghori, yn manylu ar sut mae’r sylwadau a ddaeth i law wedi dylanwadu ar esblygiad y CDLlA.

### 4.3.4. Adneuo Cynigion yn Statudol (Rheoliadau 17 - 21)

4.3.4.1. Ar sail canfyddiadau’r dystiolaeth gefndir, ynghyd â’r ymatebion ymgynghori i’r ymgynghoriad Cyn-adnau, yr adroddiad AC a’r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, bydd yr ACLl yn llunio cynllun adnau. Dyma’r cynllun sydd ym marn yr ACLl yn gadarn ac yn addas i’w fabwysiadu. Bydd y cynllun adnau o gymorth i lywio cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy er mwyn cyflawni twf o fath ac ar raddfa sy’n angenrheidiol i sicrhau llesiant cymunedau lleol yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd angen i’r cynllun ddangos ei fod yn ariannol ddichonadwy, bod modd ei gyflawni yn ystod y cyfnod dan sylw, a bod seilwaith a gyllidwyd yn sylfaen iddo.

4.3.4.2. Cynhelir cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos er mwyn medru cyflwyno sylwadau wedi hynny ar y Cynigion Adnau Statudol, a hynny o ran polisïau a safleoedd (gan gynnwys yr ACI).

4.3.4.3. Bydd angen i sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol hwn sicrhau eu bod yn dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori penodedig, i sicrhau eu bod wedi'u 'gwneud yn briodol'. Ar ben hynny, bydd yr holl sylwadau ar gael i'r cyhoedd (bydd manylion personol yn cael eu hepgor). Eto bydd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiad ymgynghori yn amlinellu sut mae'r sylwadau a ddaeth i law wedi dylanwadu ar baratoi'r cynllun.

### 4.3.5. Cyflwyno'r CDLIA i'w Archwilio (Rheoliad 22)

4.3.5.1. Wedi'r Adneuo a'r ymgynghori dilynol, bydd y CDLIA yn cael ei gyflwyno i'w Archwilio gan Arolygydd Cynllunio annibynnol a benodir gan LIC.

### 4.3.6. Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)

4.3.6.1. Rôl yr Arolygydd fydd archwilio'r CDLIA yn ei gyfanrwydd, a phrofi ei 'gadernid'. Bydd yr Arolygydd yn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, ac yn paratoi argymhellion a'r rhesymau amdanynt ar ffurf Adroddiad yr Arolygydd. Bydd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig ag Archwiliad y CDLIA yn cael eu darparu ar ffurf gwybodaeth i bartïon â diddordeb a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosesau ffurfiol. Bydd cyfle i'r rhai a gyflwynodd sylwadau 'a wnaed yn briodol' yn y cyfnod Adnau gael eu clywed gan yr Arolygydd.

4.3.6.2. Cynorthwyir yr Arolygydd gan Swyddog Rhaglen, a fydd yn gyswllt rhwng yr holl bartïon â diddordeb (gan gynnwys y Cyngor) a'r Arolygydd.

### 4.3.7. Derbyn Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)

4.3.7.1. Wedi i'r Arolygydd lunio'r adroddiad terfynol, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r holl bartïon â diddordeb a rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â'r broses o baratoi'r cynllun.

### 4.3.8. Mabwysiadu (Rheoliad 25)

4.3.8.1. O fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, os ceir bod y Cynllun yn gadarn, adroddir ar y Cynllun i'r Cyngor er mwyn ei fabwysiadu. Mae Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo'r ACLl. Ar ôl ei fabwysiadu bydd y Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Mabwysiadu yn unol â'r rheoliadau, a bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd ar ffurf materion gwybodaeth i gyfranogwyr, ymgyngoreion, y rhai sydd wedi cofrestru

ar y gronfa ddata ac i'r cyhoedd am yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys Datganiad Mabwysiadu'r Cyngor a manylion yr ACI (gan gynnwys yr AAS) a'i ddylanwad ar y CDLIA a fabwysiadwyd.

### 4.3.9. Monitro ac Adolygu Blynyddol (Rheoliad 41)

4.3.9.1 Bydd y Cyngor yn nodi'r polisïau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus a hefyd y meysydd lle mae angen newid. Bydd hefyd yn monitro effeithiau sylweddol y CDLlA yn erbyn amcanion cynaliadwyedd ac yn cyhoeddi'r adroddiadau hynny'n flynyddol.

# 5. Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)

## 5.1. Nodau'r CIS

5.1.1. Mae'r Cyngor yn gwbl ymroddedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned leol ar hyd y broses o baratoi'r Cynllun, ac mae'n bwriadu ymgysylltu'n eang a chyn gynted â phosibl er mwyn cymryd barn rhanddeiliaid i ystyriaeth a meithrin cymaint o gonsensws â phosibl. Y CIS sy'n nodi pwy fydd yn ymwneud yn ffurfiol â phroses y CDLIA, a sut a phryd bydd y cyfranogiad a'r ymgynghori yn digwydd.

## 5.2. Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned

5.2.1. Wrth baratoi'r CIS, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i gynlluniau blaenorol ar gyfer cynnwys y gymuned (CDLI *(Gorff '13)* a CDLIA *(Ionawr '22)* (Atodiad D); Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015); a Chynllun Llesiant CNPT. Mae'r rhain yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwneud yn llawn â'r gwaith o baratoi'r CDLIA a'r broses o wneud penderfyniadau, a bod cydweithio llawn ag adrannau ac unedau eraill yn y Cyngor a chyrff eraill (gan gynnwys awdurdodau cymdogol, ymgymerwyr statudol ac eraill) a allai fod o gymorth. Ymhellach, er bod holl gyfyngiadau *Covid 19* wedi cael eu dileu, amlygodd y pandemig pa mor gyflym y gall sefyllfaoedd newid. Bu hefyd yn fodd i ganiatáu ffordd newydd o weithio trwy gyfarfodydd a gweithdai rhithwir. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'r angen am gyfarfodydd a digwyddiadau wyneb yn wyneb, yn ogystal ag unrhyw weithdai neu ymgysylltu rhithwir, a bydd yn ymateb fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol i ofynion newidiol y cymunedau.

5.2.2. Ymhellach, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LICD) yn nodi y dylai'r Cyngor lunio **proffil o'r gymuned** er mwyn canfod yr ystod mwyaf priodol o fuddiannau i fod yn rhan o broses paratoi'r CDLI. Ceir manylion llawn a chanfyddiadau'r broses hon yn Atodiad E.

## 5.3. Egwyddorion Ymgysylltu

5.3.1. Gan gymryd y rhain i ystyriaeth, defnyddir yr egwyddorion ymgynghori canlynol i lywio dull y Cyngor o gynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r CDLIA:

- **Blaenlwytho:** Anogir y gymuned i ymwneud â'r CDLIA yn gynnar yn y broses o'i baratoi;
- **Ymwneud Parhaus:** Anogir y gymuned i chwarae rhan ar hyd y broses o baratoi'r CDLIA;
- **Ymrwymiad:** Chwilir am gyfleoedd i'r gymuned gyfan ymgysylltu ar adegau priodol yn y broses;
- **Cynhwysol:** Bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad gweithredol pawb sydd â diddordeb yn y CDLIA, neu y gallai effeithio arnynt;
- **Tryloyw:** Bydd yr ymgysylltu'n digwydd mewn modd tryloyw ac agored;
- **Addas at y Diben:** Bydd ymgysylltu yn addas at y diben a bydd modd darparu adnoddau ar ei gyfer; a
- **Realistig:** Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod yr holl bartïon sy'n rhan o'r broses yn deall ac yn parhau'n realistig ynghylch yr hyn y mae modd ei gyflawni yng nghyd-destun deddfwriaeth berthnasol, canllawiau LIC, a'r adnoddau sydd ar gael.

5.3.2. Ar ben hynny, rhoddir ystyriaeth i Gynllun Ymgysylltu â Dinasyddion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) CNPT, sy'n ganllaw arfer da yng nghyswllt ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r cynllun yn cynnwys pecyn offer sy'n dempled cyffredinol ar gyfer gweithdrefnau a dogfennau.

5.3.3. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r **deg o** **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru**, sef:

- Bod ymgysylltiad wedi'i lunio'n effeithiol i wneud gwahaniaeth;
- Annog a galluogi pawb dan sylw i ymwneud â hyn, os byddant yn dewis;
- Bod ymgysylltiad yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno mewn modd amserol a phriodol;
- Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol;
- Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn rhydd o jargon, yn briodol ac yn ddealladwy;
- Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan;
- Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol;
- Bod ymgysylltu yn derbyn yr adnoddau a'r gefnogaeth gywir i fod yn effeithiol;

- Bod pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad; a
- Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu.

## 5.4. Meithrin Consensws

5.4.1. Mae'r Cyngor yn bwriadu meithrin cymaint o gonsenswsâ phosibl yn ystod y broses o baratoi'r CDLIA, ac mae'n gobeithio y bydd yr holl bartïon yn ymgysylltu â'r broses o'r cychwyn. Er mwyn gwneud hynny, bydd amrywiaeth o ddulliau ymgynghori (gweler adran 5.6) yn caniatáu trafodaethau strwythuredig ac ymwneud â'r broses gyda'r nod o feithrin cymaint o gonsensws â phosibl. Dylai'r dull gweithredu hwn leihau'r amser a gymerir i fedru mabwysiadu, trwy leihau nifer y gwrthwynebiadau adnau i bolisïau ac yn sgîl hynny yr amser a gymerir yn ystod cyfnodau diweddarach y broses o baratoi'r Cynllun. Bydd sefydlu a rhannu sylfaen gyffredin o gwybodaeth ar gyfer y materion allweddol o gychwyn y broses o gymorth i feithrin consensws.

5.4.2. Lle na ellir sicrhau consensws, mae'n bwysig bod y ffynonellau gwybodaeth sy'n arwain at benderfyniad yn cael eu mynegi'n gwbl glir a'u parchu gan yr holl bartïon. Mewn achosion o'r fath, bydd materion priodol eraill megis polisi cenedlaethol yn cael eu hystyried er mwyn penderfynu ar unrhyw ganlyniad. Gellir symud ymlaen hefyd ar sail mwyafrif.

## 5.5. Rôl Rhanddeiliaid a Phartïon â Diddordeb

5.5.0.1. Yn unol â'r Rheoliadau CDLl, bydd ymgysylltu â'r gwaith o baratoi'r CDLIA yn canolbwyntio ar randdeiliaid perthnasol a'r cyhoedd, ac mae'n cynnwys:

- Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (KSG) (Atodiad F)
- Aelodau Etholedig (sy'n rhan o'r KSG);
- Cynghorau Tref a Chymuned (sy'n rhan o'r KSG);
- Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol (Atodiadau G ac H);
- Grwpiau Anodd eu Cyrraedd a Rhai â Nodweddion Gwarchodedig;
- Cronfa Ddata Ymgynghori'r CDLl;

- Y Cyhoedd;
- Y Panel Dinasyddion;
- Cydlynwyr Ardal Leol;
- Cydweithwyr o fewn y Cyngor, gan gynnwys Gweithgorau Technegol (TWG);
- Partneriaid ac awdurdodau rhanbarthol; a
- Datblygwyr, Asiantau a Hyrwyddwyr Safleoedd Eraill.

### 5.5.1. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (KSG)

5.5.5.1.1. I osgoi llethu rhanddeiliaid ag ymgyngoriadau ac i annog trafodaethau strwythuredig, bydd yr ymgysylltu'n canolbwyntio ar sefydliadau a grwpiau a nodir fel Rhanddeiliaid Allweddol. Rhanddeiliaid Allweddol yw'r rhai a nodir yn Atodiad F.

5.5.5.1.2. Yn ystod cyfnodau cynnar paratoi'r Cynllun, bydd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol yn cael ei ffurfio a bydd yn ymwneud â'r broses o baratoi'r Cynllun ar hyd y cyfnod hyd at a chan gynnwys y cyfnod Adnau. Bydd yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o nodi gweledigaeth y Cynllun, amcanion ac opsiynau o ran strategaeth ac yn ystyried strategaeth y CDLlA, dosbarthiad twf, dyraniadau safle sy'n dod i'r amlwg a pholisïau.

### 5.5.2. Aelodau Etholedig

5.5.2.1.1. Bydd Aelodau yn derbyn gwybodaeth am gynnydd y Cynllun ar hyd y broses o'i baratoi.

5.5.2.1.2. Bydd disgwyl i Aelodau Etholedig weithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer proses baratoi'r CDLlA trwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'w hetholwyr. Cynhelir seminarau i'r Holl Aelodau ar adegau priodol.

### 5.5.3. Gweithgor CDLlA yr Aelodau.

5.5.3.1.1. Lluniwyd Gweithgor CDLlA i'r Aelodau, sy'n cynnwys is-grŵp o aelodau trawsbleidiol o'r Pwyllgor Cynllunio, wedi'u cefnogi gan Swyddogion CDLl perthnasol yn ôl y galw.

5.5.3.1.2. Y bwriad yw defnyddio'r grŵp yn 'seinfwrdd' er mwyn rhoi adborth anffurfiol am bolisïau a chynigion presennol ac arfaethedig, y materion cynllunio gofodol allweddol sydd i dderbyn sylw, ynghyd â gweledigaeth, amcanion, strategaeth a chynigion y Cynllun wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg. Bydd y grŵp hefyd yn cael cyfle i adolygu'r dogfennau cefndir a'r sylfaen o dystiolaeth.

5.5.3.2. Bydd Gweithgor y CDLlA yn cwrdd yn rheolaidd fel bod modd sicrhau rôl uniongyrchol yn esblygiad strategaethau a pholisïau'r CDLlA. Nid grŵp sy'n gwneud penderfyniadau yw hwn, ond bydd yn helpu i ddylanwadu ar gyfeiriad a blaenoriaethau'r cynllun.

### 5.5.4. Cynghorau Tref a Chymuned

5.5.4.1. Bydd Cynghorau Tref a Chymuned o fewn y Fwrdeistref Sirol ac yn ei hymyl yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ledaenu gwybodaeth yn eu cymunedau eu hunain ac annog pobl i ymgysylltu â'r CDLlA. I adlewyrchu'r rôl hon a'u statws fel Ymgyngoreion Penodol (Atodiad F), bydd y Cyngor yn ymgynghori â nhw ar adegau priodol.

5.5.4.2. Er bod y Cyngor yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ymwneud â phroses y CDLlA, mae'n amlwg bod yr adnoddau sydd ar gael yn cyfyngu ar gwmpas yr ymgysylltu sy'n bosibl. Ar ben hynny, mae'n bwysig bod yr holl ymgyngoreion yn derbyn sylw teg a chyfartal.

5.5.4.3. Gan gymryd hynny i ystyriaeth, mae 19 o Gynghorau Tref a Chymuned (236 o seddau) amrywiol eu maint a'u cyllideb o fewn y Sir. Bernir bod mynychu cyfarfodydd pob un o'r Cynghorau hyn yn unigol yn anymarferol oherwydd ystyriaethau adnoddau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, bydd y Cyngor yn nodi dulliau eraill priodol o ymgysylltu yn ôl y galw.

5.5.4.4. Mae cyfleoedd hefyd i ddefnyddio Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned sefydledig y Cyngor i sicrhau consensws ynghylch y grwpiau hyn. Yn absenoldeb Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Port Talbot, bydd cymorth busnes VIVA Port Talbot a sefydliadau yn yr ardaloedd hynny yn cael eu targedu, ac ymgysylltir â nhw er mwyn casglu eu barn. Mae hefyd nifer o gyrff allanol a allai gyflawni rôl bwysig o ran cefnogi ymgysylltiad â'r Sector – gan gynnwys Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru.

### 5.5.5. Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyffredinol ac Eraill

5.5.5.1. Yn unol â'r Rheoliadau CDLl, mae'r Cyngor wedi llunio rhestrau o gyrff ymgynghori, hynny yw sefydliadau neu grwpiau sy'n debygol o fod â diddordeb yn y CDLlA neu o deimlo'i effaith. Mae'r rhain yn cynnwys Cyrff Ymgynghori Penodol (gan gynnwys LlC, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadw, ymgymerwyr statudol ac awdurdodau lleol cymdogol), a amlinellir yn Atodiad G, a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol (gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr buddiannau busnes), a amlinellir yn Atodiad H.

5.5.5.2. Bydd cyswllt â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod proses y CDLlA yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae'r BGC hefyd yn cynrychioli cwmpas eang o bartïon â diddordeb y mae eu hymwneud â'r broses yn cynorthwyo proses y CDLlA trwy ddarparu data a sylfaen o dystiolaeth, yn ogystal ag ehangu cwmpas yr ymgysylltu â phartïon a fu â chysylltiad cyfyngedig, os o gwbl, â phroses y cynllun datblygu yn y gorffennol, ond sydd â diddordeb yn CNPT.

5.5.5.3. Er mwyn annog cynrychiolaeth o bob sector o'r gymdeithas yn CNPT (fel y nodweddir yn Atodiad E) mewn modd teg, mae angen annog rhanddeiliaid posibl o rai sectorau a dangynrychiolir i chwarae rhan. O ganlyniad, cysylltwyd â grwpiau rhanddeiliaid ychwanegol lle nodwyd bylchau yn hyn o beth, a chynhwyswyd y rhain ar y rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol lle bo hynny'n briodol (Atodiad H).

5.5.5.4. Lluniwyd rhestr o Gyrff Ymgynghori Eraill yn ogystal, gan gynnwys sefydliadau neu gyrff nad ydynt yn syrthio i'r categorïau a geir yn y Rheoliadau, ond a all fod â diddordeb neu deimlo effaith. Cyflwynir rhestrau'r cyrff ymgynghori hyn yn Atodiad H.

5.5.5.5. Ar ben hynny, ceisir cynrychiolaeth o blith rhanddeiliaid penodol perthnasol ar gyfer pob un o'r Gweithgorau Technegol (TWG's). Anogir rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn meysydd pwnc penodol i ymwneud â thrafodaethau'r TWG a'r gweithdai a/neu'r cyfarfodydd i Randdeiliaid Allweddol. Bydd y rhain yn cynnwys swyddogion mewnol a rhanddeiliaid allanol, ac yn eu galluogi i gyfrannu'n llawn at ganfod yn fanylach y materion allweddol yng nghyswllt materion polisi penodol

mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu, a datblygu strategaethau a dulliau gweithredu i roi sylw i'r rhain fel sy'n briodol.

### 5.5.6. Grwpiau Anodd eu Cyrraedd a Grwpiau â Nodweddion Gwarchodedig

*Grwpiau Anodd eu Cyrraedd neu Na Chlywir Ganddynt yn Aml*

5.5.6.1. Mae'r ymarferiad proffilio cymunedol (Atodiad E) wedi nodi nifer o Grwpiau Anodd eu Cyrraedd neu Grwpiau Na Chlywir Ganddynt yn Aml yn CNPT. Cymerir camau i gysylltu â'r grwpiau a'r unigolion hyn a'u hannog, lle bo modd, i gyfranogi trwy'r prosesau a amlinellwyd uchod, gan gynnwys fforymau a thrafodaethau.

5.5.6.2. Yn arbennig, anogir cynrychiolwyr o'r grwpiau canlynol i ymwneud â'r broses o baratoi'r CDLIA:

- Pobl ifanc;
- Pobl hŷn;
- Pobl ag Anableddau;
- Sipsiwn a Theithwyr;
- Gofalwyr di-dâl;
- Myfyrwyr;
- Grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME); a
- Fforymau LHDTCRhD+.

5.5.6.3. Ar ben hynny nodwyd bod grwpiau eraill arwyddocaol yn y proffil cymunedol y bernir eu bod wedi'u tangynrychioli yn flaenorol wrth baratoi'r CDLI. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n chwilio am dai fforddiadwy yn y Fwrdeistref Sirol, pobl ar incwm isel, adeiladwyr tai ar raddfa fach a mentrau bach a chanolig (ond heb ei gyfyngu iddynt).

*Grwpiau â Nodweddion Gwarchodedig*

5.5.6.4. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd oed, anabledd, rhywedd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, yn ogystal ag yn ystod beichiogrwydd. O dan y

Ddeddf mae gofyn bod pob corff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, yn dileu camwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn hybu cyfle cyfartal, ac yn meithrin perthynas dda rhwng ac ymhlith gwahanol grwpiau gwarchodedig.

5.5.6.5. Mae’r Grwpiau Nodweddion Gwarchodedig wedi cael eu hystyried wrth lunio’r rhestrau o gyrff ymgynghori, a chysylltwyd â grwpiau ychwanegol a’u cynnwys yn grwpiau rhanddeiliaid y CDLIA, lle roedd hynny’n briodol.

5.5.6.6. Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy’n dangos ymrwymiad y Cyngor i hybu agenda cydraddoldeb yng Nghastell-nedd Port Talbot, trwy ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel i bob dinesydd. Nodau’r CCS yw:

- Dileu neu leiafu anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig; a
- Chymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae’r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.

5.5.6.7. Cynhelir Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod effaith polisïau, ymgyngoriadau a gweithdrefnau ar bawb o’r trigolion ac ymwelwyr yn cael ei hasesu.

5.5.6.8. O ran ymgysylltu â’r grwpiau hyn, gwahoddir cynrychiolwyr priodol o’r grwpiau a nodwyd i gyfranogi yng nghyfnodau perthnasol y broses o baratoi’r cynllun, er mwyn mwyafu’r mewnbwn a’r manteision yn sgîl cyfranogi. Bydd adrannau’r Cyngor, rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli a phartneriaid cyflawni yn cynorthwyo i sicrhau mynediad i bawb, ac yn targedu grwpiau penodol. Er enghraifft, bydd Swyddog Cydlyniant Cymunedol y Cyngor yn hwyluso cyswllt â’r Gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ac yn helpu i rannu gwybodaeth â’r gymuned hon a’u helpu i ymgysylltu â’r broses ymgynghori er mwyn mynegi barn.

### 5.5.7. Cronfa Ddata Ymgyngoreion y Cynllun Datblygu Lleol

5.7.7.1. Mae cronfa ddata gynhwysfawr o ymgyngoreion y CDLl wedi cael ei chynnal gan y Cyngor ers i’r broses o baratoi’r CDLl gwreiddiol gychwyn. Mae’r gronfa ddata hefyd wedi cael ei diweddaru wedi i’r GDPR ddod i rym (2019). Mae cronfa ddata’r

CDLl yn cynnwys yr holl bobl a sefydliadau (gan gynnwys unrhyw grwpiau trigolion) sydd wedi mynegi diddordeb ym mhroses y CDLlA neu wedi gwneud sylwadau ar unrhyw agwedd, ynghyd ag unrhyw un sydd wedi gofyn am dderbyn gwybodaeth ar unrhyw adeg ym mhroses y CDLl neu'r CDLlA.

5.7.7.2. Dylai unrhyw un sydd am gael eu hychwanegu at y gronfa ddata ymgynghori anfon e-bost at dîm y CDLl (ldp@npt.gov.uk) a rhoi cydsyniad ysgrifenedig i'r Cyngor storio eu manylion personol.

### 5.5.8. Y Cyhoedd

5.7.8.1. Er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r Cynllun yn dryloyw, a bod y cyhoedd yn gallu helpu i lywio'r cynllun, mae'n hanfodol eu bod yn cael cais i ymwneud â hyn. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ystod amrywiol o ddulliau i sicrhau cyfranogiad effeithiol gan y gymuned ar hyd proses y Cynllun, ochr yn ochr â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

5.7.8.2. Yn ystod prif gyfnodau'r ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd, bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael gwybod am gynnydd y CDLlA trwy nifer o ddulliau ymwybyddiaeth ymgynghori, a amlinellir yn yr adran nesaf.

### 5.5.9. Y Panel Dinasyddion

5.7.9.1. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Dinasyddion er mwyn galluogi trigolion y Fwrdeistref Sirol i gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a pholisi. Mae aelodaeth o'r Panel Dinasyddion ar agor i drigolion Bwrdeistref Sirol CNPT sydd dros 16 oed.

5.7.9.2. Bwriad y Panel Dinasyddion yw bod yn fodd i fesur barn croestoriad o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol.

### 5.5.10. Cydlynwyr Ardal Leol

5.7.10.1. Mae Cydlynwyr Ardal Leol (LAC's) yn gweithio mewn cymunedau lleol ac yn mynd ati'n rhagweithiol i gwrdd ag unigolion a theuluoedd yn eu cymdogaethau, gan feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau â phobl dros amser. Mae hynny'n galluogi'r trigolion i adnabod eu galluoedd eu hunain, yn ogystal ag unrhyw rwydweithiau cymunedol neu adnoddau ymarferol posibl a allai fod ar gael iddyn. Nod trosfwaol y cynllun yw bod pobl yn byw bywydau gwell, hapusach a iachach.

### 5.5.11. Cydweithio o fewn y Cyngor, gan gynnwys Gweithgorau Technegol (TWGs)

5.7.11.1. Er mwyn sicrhau bod pob adran o'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r broses o baratoi'r CDLlA a'i gynnydd, cynhelir cyflwyniadau a chyfarfodydd gydag uwch swyddogion perthnasol y cyngor ym mhob adran dan sylw. Bwriad hyn yw caniatáu trafodaeth ar bob agwedd, ac yn arbennig rhoi cyfle i godi a chydnabod materion, eu hystyried yn llawn a rhoi sylw iddynt.

5.7.11.2. Sefydlwyd TWGs i roi sylw i feysydd polisi penodol fel tai (a thai fforddiadwy), materion cyflogaeth neu amgylcheddol, a lle bo angen, faterion cymunedol sy'n ymwneud â'r ardal. Mae'r TWGs yn cynnwys Swyddogion o'r Cyngor sy'n gyfrifol am feysydd megis Cynllunio, Priffyrdd, Peirianneg, Draenio a Rheoli Llifogydd, Bioamrywiaeth, Datblygu Economaidd, Tai, Addysg a Iechyd y Cyhoedd, er nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

### 5.5.12. Cydweithio Rhanbarthol

5.7.12.1. Mae'n statudol ofynnol bod cydweithio rhanbarthol yn digwydd, a ffurfiwyd perthynas waith agos eisoes gyda'r awdurdodau cymdogol cyfagos, gan sefydlu cyfarfodydd grŵp allweddol.

5.7.12.2. Mae Grŵp Cynllunio Strategol De-orllewin Cymru a'r Gweithgor Mwynau a Gwastraff eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y cyd. Ymhlith yr astudiaethau diweddaraf mae'r: Diffiniad o Ardal Twf Genedlaethol (NGA) Bae Abertawe a Llanelli, ac Astudiaeth Masnachu Credyd Maetholion – *Dichonoldeb a Phecyn Offer.* Bydd yr astudiaethau hyn nid yn unig yn llywio adolygiadau o CDLlAiau unigol, ond hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith ar CDSiau yn y dyfodol.

### 5.5.13. Datblygwyr, Asiantau a Hyrwyddwyr eraill Safleoedd

5.7.13.1. Anogir datblygwyr, asiantau, tirfeddianwyr ac unrhyw bersonau eraill â diddordeb i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer safleoedd y maent am iddynt gael eu hystyried i'w datblygu yn ystod yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Bydd manylion y broses Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, yn cael eu darparu ar wefan y Cyngor cyn yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol er mwyn i ddatblygwyr, asiantau a thirfeddianwyr ddeall y broses yn llawn, deall costau

posibl cyflwyno safle (gan gynnwys costau sicrhau tystiolaeth gefnogi megis y Model Dichonoldeb Datblygu), a deall ble gallai fod angen ymgynghorwyr ac arbenigwyr.

5.7.13.2. Cyn yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, bydd CDLl yn ysgrifennu at holl dirfeddianwyr, asiantau a/neu ddatblygwyr dyraniadau safle sydd heb eu datblygu i roi gwybod iddynt am yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, os oes gennym wybodaeth gyswllt wedi'i diweddaru ar eu cyfer.

5.7.13.3. Bydd datblygwyr, asiantau, tirfeddianwyr a phersonau eraill â diddordeb hefyd yn ymwneud â'r TWG Tai. Bydd Tîm y CDLl yn defnyddio'r Grŵp Llywio Tai sydd eisoes yn bodoli yn sail ar gyfer y TWG Tai, ac yn gwahodd gwerthwyr tai/benthycwyr/priswyr etc. i estyn yr aelodaeth er mwyn trafod rhagdybiaethau mewnbwn dichonoldeb, er enghraifft yng nghyswllt prisiau tai/costau adeiladu/elw datblygwyr etc.

## 5.6. Dulliau Ymwneud, Cyfranogi ac Ymgynghori

5.6.0.1. Yn ystod y broses o baratoi'r cynllun, bydd y CDLlA yn galw am ymgysylltu ar draws yr amrywiol randdeiliaid a drafodwyd yn adran 5.5 uchod, i helpu i lunio'r Cynllun.

### 5.6.1. Digwyddiadau ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd

5.6.1.1. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ar draws yr awdurdod bod ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd yn digwydd, defnyddir sawl dull ymgynghori i gynyddu ymwybyddiaeth o'r CDLlA gymaint â phosibl.

5.6.1.2. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:

- **Cyswllt Uniongyrchol**: trwy e-bost/lythyr at y rhai sydd ar Gronfa Ddata Ymgynghori'r CDLl;
- **Gwefan Benodol y CDLlA –** Cyhoeddi dogfennau ar wefan y Cyngor, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin a nodiadau Darllen Hwylus;
- **Argaeledd dogfennau** – dogfennau allweddol i gael eu darparu yn y Lleoliadau Adnau (gweler 5.6.4);

- **Hyrwyddo ymgynghori gan Aelodau Etholedig, yn ogystal â Cynghorau Tref a Chymuned**: Bydd Cynghorau Cymuned, Cynghorau Tref ac Aelodau yn cael gwybodaeth (gan gynnwys posteri) i helpu i hyrwyddo'r ymgyngoriadau cyhoeddus. Ym Mhort Talbot, defnyddir #VIVA Port Talbot. Gellir gofyn i'r aelodau ddosbarthu gwybodaeth yn uniongyrchol i drigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, a rhannu gwybodaeth trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol cymunedol eu hunain;
- **Darparu nodiadau cyfarwyddyd i lyfrgelloedd:** Anfonir taflenni cyhoeddusrwydd i lyfrgelloedd yn hyrwyddo'r amrywiol gyfnodau ymgynghori, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch mynediad at yr wybodaeth ar-lein;
- **Ymgyrchoedd Radio Lleol**: Bydd gweithgareddau ymgysylltu ynghylch y cyfnodau ymgynghori cyn-adnau ac adnau yn cael eu hysbysu trwy amrywiol ymgyrchoedd Radio lleol;
- **Datganiadau i'r Wasg:** I bapurau newydd lleol a rhanbarthol, gan gynnwys Newyddion CNPT;
- **Cyfryngau Cymdeithasol**: rhoddir diweddariadau rheolaidd trwy gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor (megis Facebook, LinkedIn, Instagram, Twitter (X) ac e-gylchlythyr misol 'Newyddion CNPT');
- **Diweddariadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**;
- **Diweddariadau i staff CNPT:** trwy'r cyfrif 'SWAY' (gan fod 69% o gyflogeion yn byw a gweithio yn CNPT); Facebook, LinkedIn, Instagram, Twitter (X);
- **Ystafell Newyddion CNPT** - blog byw sy'n adnewyddu'n rheolaidd ar dudalen y Cyngor ar y we;
- **Baneri dros dro:** Caiff y rhain eu dosbarthu i leoliadau i annog pobl i ymweld â gwefan y Cyngor;
- **Posteri a Thaflenni:** caiff y rhain eu dosbarthu i gyfleusterau cymunedol lleol allweddol, fel llyfrgelloedd, meddygfeydd, canolfannau hamdden a hysbysfyrddau cymunedol.
- **Arddangosfeydd Cyhoeddus wedi'u Targedu:** Rhai galw heibio neu heb staff yn ôl y galw;
- **Cyfarfodydd rhithwir ac wyneb yn wyneb**: cynhelir y rhain yn ystod cyfnodau ymgynghori'r Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau;

- **Sgriniau Digidol**: defnyddir y rhain lle bo'n briodol ac yn ymarferol. Gellir defnyddio lleoliadau fel y Canolfannau Dinesig a hybiau trafnidiaeth;
- **Y Cyngor Ieuenctid a'r Maer Ieuenctidl:** cedwir mewn cyswllt a rhannu gwybodaeth gyda nhw;
- **Cydweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol:** byddan nhw'n cynorthwyo i ddosbarthu gwybodaeth a chasglu ymatebion gan bobl ifanc trwy Ieuenctid CNPT, neu YOVO fel y'i gelwir (pobl ifanc dros 11) a Junior YOVO (7-11 oed);
- **Cydlynwyr Ardal Leol**: defnyddir y rhain i ddosbarthu a chyfleu gwybodaeth;
- **Fforymau LHDTCRhA+, Grwpiau Ethnig Du, Asiaidd a Lleiafrifol, a phob grŵp arall o randdeiliaid na chlywir ganddynt yn aml:** ymgysylltir â'r rhain trwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu a chynyddu ymwybyddiaeth trwy ddulliau eraill wedi'u teilwra'n briodol megis posteri/taflenni yn ôl y galw. Bydd y dogfennau neu'r deunyddiau ymgynghori yn cael eu trosi i ieithoedd a fformatau eraill yn ôl yr angen er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltiad â phosibl â grwpiau na chlywir ganddynt yn aml; a
**Rhanddeiliaid Cymraeg**: ymgysylltir â'r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg.

### 5.6.2. Yr Iaith Gymraeg

5.6.2.1. Bydd y gwaith o baratoi'r CDLlA a'r holl ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn digwydd yn unol â safonau'r Cyngor o ran y Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015

- Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd yn delio â gohebiaeth Cymraeg a Saesneg gan gadw at yr un safonau a therfynau amser;
- Bydd gohebwyr yn derbyn ymateb yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol;
- Bydd pob ffurflen, dogfen ymgynghori (ac eithrio dogfennau technegol), deunydd cyhoeddusrwydd a gohebiaeth yn ddwyieithog; a
- Bydd pob cyfarfod, ffurfiol neu anffurfiol, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog lle gofynnir am hynny ymlaen llaw.

### 5.6.3. Argaeledd Dogfennau

5.6.3.1. Bydd yr holl ddogfennau perthnasol a gynhyrchir fel rhan o broses paratoi'r CDLlA yn cael eu darparu i'r holl ymgyngoreion a rhanddeiliaid, mewn fformat perthnasol ar adegau priodol, i lywio cyfnodau paratoi'r cynllun. Cyhoeddir y dogfennau hyn ar wefan y CDLlA (www.npt.gov.uk/ldp). Ar ben hynny, bydd copïau printiedig ar gael i'w darllen (trwy apwyntiad yn unig), yn y swyddfeydd canlynol ('Lleoliadau Adnau'):

- Canolfan Ddinesig Castell-nedd, SA11 3QZ
- Canolfan Ddinesig Port Talbot, SA13 1PJ

5.6.3.2. Bydd copïau papur o'r dogfennau ar gael i'w prynu ar gais, a bydd y pris yn talu am gostau argraffu, postio a phecynnu.

### 5.6.4. Trefniadau Cyflwyno Adborth ar Sylwadau

5.6.4.1. Bydd yr holl sylwadau a ddaw i law fel rhan o'r cyfnodau ymgynghori statudol yn cael eu cydnabod a'u cofrestru ar gronfa ddata'r CDLlA, a defnyddir canfyddiadau'r ymgyngoriadau yng ngham nesaf paratoi'r CDLlA. Hysbysir ymgyngoreion a gohebwyr ynghylch y camau nesaf yn y broses. Bydd y rhan fwyaf o'r ohebiaeth yn digwydd trwy e-bost. Bydd hynny'n sicrhau dull cyflym, diwastraff o ymgysylltu. Lle bynnag nad yw hynny'n bosibl, anfonir llythyron drwy'r post.

5.6.4.2. Ym mhob cyfnod arwyddocaol (Cyn-Adnau ac Adnau), adroddir am y sylwadau ymgynghori ac ymateb yr ACLl i Fwrdd Cabinet Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Strydlun y Cyngor (ER&SSCB) a'r Cyngor Llawn.

5.6.4.3. Fel y soniwyd eisoes, bydd manylion yr holl weithgaredd ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnwyd yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a'r Adroddiad Ymgynghori sy'n ofynnol o dan Reoliadau CDLl Cymru adeg cyfnodau Strategaeth a Ffafrir, Cynllun Adnau a Chyflwyno y broses o baratoi'r cynllun, yn eu tro.

### 5.6.5. Deisebau

5.6.5.1. Weithiau bydd grwpiau'n defnyddio deisebau i gynnig eu barn ar ryw fater. Dylai unrhyw ddeiseb a gyflwynir nodi'n glir ar bob tudalen beth yw pwrpas y ddeiseb, a dylai gynnwys enw cyswllt a chyfeiriad/e-bost ar gyfer y trefnydd.

5.6.5.2. Cyfeirir pob gohebiaeth i'r manylion cyswllt a roddwyd ar gyfer y person sy'n trefnu'r ddeiseb; nid anfonir cydnabyddiaeth unigol at lofnodwyr unigol y ddeiseb, ac ni fyddant yn cael eu hychwanegu'n awtomatig at gronfa ddata'r CDLIA nac yn cael eu hysbysu ynghylch y camau nesaf.

### 5.6.6. Sylwadau a Gyflwynwyd yn Briodol ac yn Hwyr

5.6.6.1. Er mwyn cyflwyno sylwadau yn briodol, rhaid eu cyflwyno i Dîm y CDLI yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfnod ymgynghori hwnnw. Yn nodweddiadol, bydd hynny'n cynnwys y sylwadau a ddaeth i law trwy'r post safonol neu gyfathrebiadau e-bost. Rhaid i'r sylwadau gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post, a nodi'r materion y cyfeirir atynt (sylwch na fydd unrhyw fanylion personol yn cael eu cyhoeddi). Rhaid sicrhau hefyd nad yw sylwadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth na datganiadau difenwol. Lle cyflwynir sylwadau yn y Cyfnod Adnau, rhaid nodi'n eglur pa newidiadau a geisir, ar ba sail y gwneir y sylw, a'r prawf/profion cadernid sydd heb eu bodloni.

5.6.6.2. Bydd y Cyngor yn derbyn sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnodau ymgynghori rhagnodedig yn unig. Cedwir yn fanwl at y terfynau amser, a bernir bod unrhyw sylwadau a ddaw i law y tu allan i'r cyfnodau ymgynghori hyn heb eu gwneud yn briodol.

5.6.6.3. Er y defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad, ni all y Cyngor dderbyn sylwadau a wneir yn uniongyrchol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

# 6. Gwneud Penderfyniadau a Chyflawni

## 6.1. Gwneud Penderfyniadau a Chyflawni

6.1.1. Bydd angen gwneud penderfyniadau strategaeth a pholisi pwysig mewn cyfnodau allweddol o ddatblygiad y CDLIA sy'n dod i'r amlwg. Isod amlinellir ym mha ffyrdd y bydd y cyngor yn gwneud y penderfyniadau hyn, ynghyd â mesurau i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni o fewn y terfynau amser a ragwelwyd.

## 6.2. Adroddiadau Mewnol

6.2.1. Ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLIA, bydd gofyn sicrhau cymeradwyaeth Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth (DMT), Grŵp y Cyfarwyddwyr Corfforaethol (CDG), Bwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Strydlun (ER&SSCB) a'r Cyngor Llawn. Yn gyffredinol, bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol (Swyddogion ac Aelodau) yn cynnwys trafodaethau yn y grwpiau canlynol:

- Y Gweithgor Technegol (TWG) (gan gynnwys Swyddogion);
- Gweithgor Aelodau'r CDLIA (MWG)*/ Seminar yr Holl Aelodau/Briffiad yr Aelodau;
- DMT;
- CDG;
- ER&SSCB; a'r
- Cyngor Llawn.

6.2.2. Bwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Strydlun fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch y CDLIA, a bydd y cyfnodau ffurfiol allweddol yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd hwnnw a'r Cyngor Llawn.

## 6.3. Cydweddu Corfforaethol

6.3.1. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gyflawni ei nodau a'i amcanion corfforaethol trwy ei ddogfennau strategol a pholisi. Mae datblygu perthynas gorfforaethol rhwng

dogfennau o’r fath yn ganolog i’w cyflawni’n effeithiol, ac mae’r CDLlA yn allweddol bwysig o ran cyfleu dyheadau defnydd tir.

6.3.2. Bydd Cynllun Llesiant y Cyngor yn rhan allweddol o dystiolaeth y CDLlA, gan ffurfio a dylanwadu ar weledigaeth, strategaeth ac amcanion y CDLlA.

## 6.4. Staffio ac Adnoddau Ariannol

6.4.1. Mae gofyn bod y Cyngor yn nodi’r adnoddau – o ran staff ac arian – sy’n ofynnol ar gyfer gwahanol gyfnodau ym mhroses y CDLlA o baratoi’r CC. Bydd Tîm Polisi Cynllunio’r Cyngor yn arwain y gwaith o gynhyrchu a rheoli proses y CDLlA, gan gynnwys paratoi unrhyw ddogfennau ymgynghori, a nhw fydd yn gyfrifol am reoli’r cyfnodau terfynol (1-4, gweler Tabl 4.1.1) o’r broses baratoi a symud ymlaen i Gyflwyno’r CDLlA i LlC i’w Archwilio (Amserlen Ddangosol, Cyfnod 5). Er bod amser y swyddogion canlynol wedi’i neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer y broses o baratoi’r CDLlA, bydd y sefyllfa’n cael ei monitro ar hyd y broses, a gofynnir am adnoddau ychwanegol yn ôl y galw:

6.4.2. Tîm y CDLlA:

- Rheolwr Polisi Cynllunio x 1 (50%)
- Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio x 0.8 (80%)
- Uwch Swyddogion Polisi Cynllunio x 3.8 (85%)
- Swyddog Polisi Cynllunio x 1 (85%)
- Swyddog Polisi Cynllunio Dros Dro (3bl) x 1 (85%)
- Uwch Swyddog Busnes a Chymorth Technegol x 1 (65%)

6.4.3. Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd a Rheolwr Polisi Cynllunio fydd yn gyfrifol am gyflawni’r CDLlA yn gyffredinol, a Rheolwr ac Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio fydd yn gyfrifol am reoli’r prosiect o ddydd i ddydd. Bydd Tîm y Polisi Cynllunio yn arwain y gwaith o baratoi a chyflwyno’r CDLlA, gan ymgysylltu â’r Aelodau a chyflwyno adroddiadau gwleidyddol ar yr adegau priodol.

6.4.4. Bydd swyddogion ym meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor hefyd yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar y broses o baratoi’r Cynllun yn ôl y galw. Lle bo angen,

penodir ymgynghorwyr allanol i gyflawni darnau penodol o waith fel paratoi asesiadau ac astudiaethau technegol, cynghori ar faterion penodol, a pharatoi dogfennau fel yr ACI a'r ARhC. Cyflawnwyd asesiad cychwynnol o'r elfennau o baratoi'r cynllun sy'n debygol o alw am fewnbwn ymgynghorydd allanol, a neilltuwyd adnoddau ariannol yn unol â hynny.

6.4.5. Bydd cydweithio rhanbarthol gydag awdurdodau cymdogol yn hanfodol i baratoi'r CDLIA, a lle bo hynny'n briodol, ceisir cyfleoedd i ddatblygu sylfaen o dystiolaeth ar y cyd ag awdurdodau cymdogol ac awdurdodau yn Rhanbarth De-orllewin Cymru.

### Sefyllfa'r Gyllideb

6.4.6. Mae'r Cyngor yn darparu Cyllideb o £530,830 i dalu am baratoi'r CDLIA hyd at ei fabwysiadu yn 2027/28. Mae hyn yn cynnwys cyllideb waelodol o £81,205 y flwyddyn, a thelir y gweddill o gronfa wrth gefn a neilltuwyd. Y costau a ragwelir yng nghyswllt pob elfen o'r CDLIA (gan gynnwys yr Archwiliad cyhoeddus ond heb gynnwys costau staff) yw £490,830, sy'n golygu bod darpariaeth o £30,000 wrth gefn yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd.

*Tabl 6.4.6: Sefyllfa'r Gyllideb*

| Blwyddyn | Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael | Arian sydd ar gael yn y gyllideb waelodol | Arian sydd ar gael yng nghronfa wrth gefn y CDLl | Amcan o gyfanswm y gwariant |
|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | £100,263 | £81,205 | £19,058 | £100,263 |
| 2024/25 | £112,945 | £81,205 | £31,740 | £112,945 |
| 2025/26 | £122,720 | £81,205 | £41,515 | £122,720 |
| 2026/27 | £103,697 | £81,205 | £22,492 | £103,697 |
| 2027/28 | £81,205 | £81,205 | £0 | £51,205 |

## 6.5. Rheoli Risg

6.5.1. Bernir bod cyfnod terfynol yr amserlen yn realistig ac yn gyflawnadwy, gan roi sylw i fewnbwn adnoddau ym mhroses y CDLIA. Er y bydd y Cyngor yn ceisio osgoi gwyro oddi wrth yr amserlen arfaethedig, nodwyd nifer o risgiau a allai olygu bod y

rhaglen yn llithro. Cyflwynir y risgiau posibl a’r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer ymdrin â’r risgiau hynny neu eu lleiafu yn Atodiad I. Bydd y Cyngor yn adrodd am unrhyw wyriad sylweddol (o fwy na 3 mis) o’r amserlen arfaethedig ac yn ei gyfiawnhau. Mae Adran 4 yn nodi’r gweithdrefnau i’w dilyn os bydd y Cyngor yn nodi bod angen newid y CC.

# Rhan 3 – Monitro ac Adolygu

## 7. Monitro ac Adolygu

### 7.1. Monitro ac Adolygu

7.1.1. Yn unol â'r Rheoliadau CDLl, bydd y Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd yn erbyn y CC ar hyd y broses o baratoi'r CDLlA, er mwyn sicrhau bod nodau'r CIS yn cael eu cyflawni, yn unol â'r amserlen arfaethedig.

7.1.2. Ymhlith yr achosion lle gallai fod angen adolygu a newid y CC mae'r canlynol:

- Os bydd y broses yn syrthio'n sylweddol y tu ôl i'r amserlen (mwy na 3 mis);
- Os bydd gofyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r CIS;
- Os bydd newidiadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor;
- Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau newydd yn gofyn bod angen cyflawni gweithdrefnau neu dasgau newydd;
- Os bydd unrhyw newid pwysig mewn amgylchiadau sy'n cael effaith fawr ar y rhagdybiaethau, y dystiolaeth, y polisïau neu'r cynigion a geir yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg;
- Os bydd cyfyngiadau pellach oedd heb eu rhagweld, megis mesurau rheoli ychwanegol cysylltiedig â Covid-19, neu ddigwyddiadau lleol neu genedlaethol o'r fath.

7.1.3. Os bydd y Cyngor yn nodi bod angen adolygu'r CC, bydd yn ceisio cytundeb gyda LlC yn unol â'r Rheoliadau CDLl.

### 7.2. Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB)

7.2.1. Ar ôl mabwysiadu'r CDLlA, bydd y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn unol â'r canllawiau a geir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Bydd yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth bob blwyddyn, yn cael ei gyflwyno i LlC erbyn 31 Hydref yn yr un flwyddyn, ac ar gael i'r cyhoedd ei archwilio trwy wefan y Cyngor.

7.2.2. Bydd yr AMB yn asesu pa mor effeithiol mae polisïau a chynigion y Cynllun yn perfformio. Os nad yw polisi'n cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn nodi'r rhesymau am hynny ac yn cyflwyno'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau ei weithrediad, a hefyd unrhyw fwriad i ddiwygio'r CDLlA, er mwyn cyfnewid neu addasu'r polisi.

7.2.3. Bydd yr AMB hefyd yn adrodd am gyflwyno tai ac yn monitro hynny, gan gynnwys lefel flynyddol y tai a gwblhawyd, fydd yn cael ei fonitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelwyd (AABR) a nodwyd yn nhaflwybr tai y CDLlA a fabwysiadwyd; cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd gwblhau a ragwelwyd a bennwyd yn nhaflwybr tai y CDLlA a fabwysiadwyd; lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn targed trosfwaol y CDLlA; a deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblhawyd.

## 7.3. Adolygu'r CDLlA

7.3.1. Ar ôl mabwysiadu'r CDLlA, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad llawn o'r CDLlA o leiaf unwaith bob pedair blynedd, er y bydd yr amlder a'r amseriad yn dibynnu ar ganfyddiadau'r AMB / amgylchiadau lleol. Cynhelir yr adolygiad yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol.

# Atodiadau

**Atodiad A – Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot - Amserlen**

| | 2023 | | | | | | | 2024 | | | | | | | | | | | | 2025 | | | | | | | | | | | | 2026 | | | | | | | | | | | | 2027 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E |
| Cyhoeddi Adroddiad Adolygu Terfynol y CDLl **(Gorffennaf 2020)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfnod Allweddol 1: Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5-10)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi'r CC draft ac adrodd i'r Bwrdd a'r Cyngor Llawn | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno i LIC i'w gymeradwyo | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi'r CC cymeradwy wedi i LIC ei gymeradwyo | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfnod Allweddol 2: Paratoadau Cyn-Adnau a Chyfranogiad (Rheoliad 14)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu a datblygu gwybodaeth a thystiolaeth gwaelodlin | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfnod A yr AC: Paratoi Adroddiad Rhychwantu'r ACI (AAS) | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghori, asesu, ystyried ac adrodd am y sylwadau a ddaeth i law ar Adroddiad Rhychwantu'r ACI (AAS) | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi Adroddiad Rhychwantu'r ACI (AAS) gan gynnwys penderfyniad Sgrinio'r AAS | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu a datblygu Opsiynau, Materion ac Amcanion Strategol a'r Weledigaeth | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Estyn gwahoddiad i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Asesu Safleoedd Ymgeisiol | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfnod Allweddol 3: Ymgynghoriad Cyn-Adnau (Rheoliadau 15, 16, 16A)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi'r Strategaeth a Ffafrir, Sgrinio'r AAS a'r ACI (adroddiad interim yr AAS) | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd am y Strategaeth a Ffafrir, Sgrinio'r ARhC a'r ACI (Adroddiad Interim yr AAS) | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir (gan gynnwys Safleoedd Strategol), Adroddiad Interim yr ACI (AAS) ac Adroddiad Sgrinio'r ARhC | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adborth Cymunedol ar y Safleoedd Ymgeisiol | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Asesu, ystyried ac adrodd am yr ymatebion a gafwyd i'r Strategaeth a Ffafrir, yr ACI Interim (AAS) ac Adroddiad Sgrinio'r ARhC | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| |
|---|
| Cyhoeddi'r Strategaeth a Ffafrir, yr ACI Interim (AAS) ac Adroddiad Sgrinio'r ARhC a'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol |
| **Cyfnod Allweddol 4: Cyfranogiad/Ymgynghoriad Adnau (Rheoliadau 17-21)** |
| Paratoi Cynllun Adnau drafft, ac Adroddiadau'r ACI (AAS) a'r ARhC |
| Adrodd am y CDLl Adnau drafft, ac Adroddiadau'r ACI (AAS) a'r ARhC |
| Ymgynghori ar y CDLl Adnau drafft, yr ACI (AAS) a'r ARhC |
| Asesu ac Ystyried y sylwadau a ddaeth i law yng nghyswllt y CDLl Adnau drafft, ac Adroddiadau'r ACI (AAS) a'r ARhC |
| Paratoi ac Adrodd ar yr Adroddiad Ymgynghori Terfynol |
| Adrodd am y sylwadau ar y CDLl Adnau, ac Adroddiadau'r ACI (AAS) a'r ARhC. Cymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru |
| **Cyfnod Allweddol 5** |
| Cyflwyno i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 22) |
| **Cyfnod Allweddol 6** |
| Archwiliad gan gynnwys y Cyfarfod cyn y Gwrandawiad (Rheoliad 23) |
| **Cyfnod Allweddol 7** |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) |
| **Cyfnod Allweddol 8** |
| Mabwysiadu (Rheoliadau 25, 25A) |
| **Cyfnod Allweddol 9** |
| Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37) **(Ebrill 2028)** |

## Atodiad B – Cyfnodau Allweddol y CDLl, yr ACI a'r ARhC

*Tabl B1: Cyfnodau Allweddol y CDLl, yr ACI a'r ARhC*

| Cyfnod | Cyfnod y CDLl | Cyfnod yr ACI | Cyfnod yr ARhC |
|---|---|---|---|
| 1 | Adolygu a Datblygu Sylfaen o Dystiolaeth | Sgrinio cychwynnol<br><br>Datblygu Adroddiad Rhychwantu'r ACI<br><br>Ymgynghori ar Adroddiad Rhychwantu'r ACI | Sgrinio cychwynnol |
| 2 | Galw am Safleoedd Ymgeisiol a'u Hasesu | ACI o Safleoedd Ymgeisiol | Asesu'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol |
| 3 | Y Strategaeth a Ffafrir - Paratoi'r Weledigaeth, yr Amcanion, yr Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffafrir<br><br>Y Strategaeth a Ffafrir – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Asesiad ACI o'r opsiynau a'r safleoedd strategol<br><br>Paratoi Adroddiad Interim yr ACI | Sgrinio'r ARhC |
| 4 | Ymgynghoriad Cyn-Adnau (Y Strategaeth a Ffafrir) | Ymgynghori ar Adroddiad Interim yr ACI | Asesu'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol |
| 5 | Drafftio'r CDLlA Adnau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Asesu'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg | Asesu'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol |
| 6 | Y CDLlA Adnau a'r Dogfennau Cysylltiedig | Ymgynghori ar Adroddiad yr ACI | Rhychwantu'r Asesiad Priodol (os bydd angen) |

| Cyfnod | Cyfnod y CDLl | Cyfnod yr ACI | Cyfnod yr ARhC |
|---|---|---|---|
| | | | Asesiad Priodol (os bydd angen)<br><br>Ymgynghori ffurfiol ar yr Asesiad Priodol (os bydd angen)<br><br>Cofnodi’r Asesiad Priodol |
| 7 | Cyflwyno’r CDLIA i Lywodraeth Cymru | Cyflwyno Adroddiad ACI gyda’r CDLIA | Cyflwyno Adroddiad ARhC gyda’r CDLIA |
| 8 | Archwiliad Annibynnol Cyhoeddus (EIP) | | |
| 9 | Cyhoeddi Adroddiad rhwymol yr Arolygydd | | |
| 10 | Mabwysiadu’r CDLIA<br><br>Paratoi Datganiad Mabwysiadu | Paratoi Datganiad ACI | Paratoi Datganiad ARhC |
| 11 | Monitro ac Adolygu | Monitro gweithrediad y CDLIA yn erbyn Dangosyddion yr ACI | |

## Atodiad C – Cyfnodau Paratoi'r Cynllun a Dulliau Ymgysylltu

*Tabl C.0.1: Paratoi a Chyflwyno'r CC (Rheoliad 9)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Drafftio'r CC ac ymgynghori | Cyflwyno amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun a'r broses, a dulliau o ymgysylltu â'r gymuned | Medi / Hydref 2023 | Cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol | E-bost / Llythyr | Bydd sylwadau'n cael eu hystyried, a newidir y CC os bydd angen.<br><br>Y CC terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno'n ffurfiol. |
| Ymgynghori ar Adroddiad Rhychwantu'r ACI, gan gynnwys sgrinio'r ACI | Cynnwys ymgyngoreion statudol yr AC/AAS yn y gwaith o baratoi'r Adroddiad Rhychwantu. | Medi – Hydref 2023 | Ymgyngoreion statudol yr AAS/AC (Cadw a CNC) | E-bost/Llythyr | |
| Cyhoeddi'r CC cytunedig | Hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd am y CC cytunedig | Tachwedd 2023 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen derfynol ar Wefan y Cyngor. | CC wedi'i ddiweddaru i gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ei gosod mewn Lleoliadau Adnau.<br><br>E-bost/Llythyr | |
| Cyhoeddi Adroddiad Rhychwantu'r ACI, gan gynnwys sgrinio'r ACI | Hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd am Adroddiad Rhychwantu terfynol/sgrinio'r ACI | Tachwedd 2023 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon | Lleoliadau adnau<br><br>Gwefan<br><br>E-bost/llythyr | Adroddiad Rhychwantu'r ACI (gan gynnwys sgrinio) yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau Adnau ac ar wefan y Cyngor. |

*Tabl C.0.2: Paratoadau a Chyfranogiad Cyn-adnau (Rheoliad 14)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Galwad am Safleoedd Ymgeisiol | Canfod argaeledd tir a pharodrwydd tirfeddianwyr i ryddhau tir ar gyfer safleoedd datblygu posibl. | Tachwedd - Rhagfyr 2023 (cyfnod o 6 wythnos) | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | E-bost/llythyr<br><br>Gwefan – diweddariad i gynnwys yr holl ddeunydd perthnasol, gan gynnwys y Ffurflen ar gyfer cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol; atebion i'r Cwestiynau Cyffredin a'r meysydd sy'n peri dryswch.<br><br>Hysbysebu ar blatfformau Cyfryngau Cymdeithasol.<br><br>Anfon Nodyn Briffio i bob llyfrgell. | Y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodi materion sy'n codi;<br><br>Adolygu a datblygu sylfaen o dystiolaeth;<br><br>Datblygu gweledigaeth a sefydlu amcanion y CDLIA;<br><br>Ystyried strategaethau ac opsiynau twf a gofodol amgen<br><br>Ystyried y Cynllun Cyn-adnau Drafft – h.y. drafft o'r Weledigaeth, y Strategaeth a'r | Datblygu a chytuno ar weledigaeth a ddiweddarwyd, datblygu consensws ar opsiynau sy'n cynnwys lefelau twf a dosbarthiad gofodol, a llywio datblygiad y Strategaeth a Ffafrir.<br><br>Deall y cyd-destun, adolygu ac ychwanegu at y data<br><br>Nodi'r materion allweddol y dylai'r CDLIA roi sylw iddynt<br><br>Datblygu gweledigaeth | Tachwedd 2023 – Medi 2024 | Aelodau Etholedig<br><br>Gweithgor Aelodau'r CDLIA<br><br>Cyrff ymgynghori penodol fel sy'n briodol<br><br>Y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol<br><br>Grwpiau seiliedig ar yr Ardal Gynllunio Ofodol, fel sy'n briodol<br><br>Gweithgorau Technegol<br><br>Cydweithio rhanbarthol<br><br>Y Panel Dinasyddion | E-bost/llythyr<br><br>Gweithdai<br><br>Cyfarfodydd<br><br>Diweddaru gwefan y Cyngor yn rheolaidd<br><br>Cynnal cyfarfodydd rhithwir neu wyneb yn wyneb gyda grwpiau a dargedir i'w hysbysu am gynnydd, fel sy'n briodol.<br><br>Ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Seminarau i'r Holl Aelodau | Paratoi papurau pwnc/cyflwyniadau sylfaen o dystiolaeth.<br><br>Adrodd i Fwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Strydlun. |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| dewisiadau amgen. | glir ar gyfer ardal y Cynllun ac amcanion ar gyfer y CDLlA<br><br>Cynhyrchu opsiynau dichonadwy ac asesu pob un er mwyn datblygu polisïau allweddol<br><br>Cytuno ar strategaeth a ffafrir ar gyfer y CDLlA<br><br>Nodi meysydd/ pynciau ar gyfer cynhyrchu CCA<br><br>Meithrin consensws | | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Gweithgor Aelodau'r CDLlA<br><br>Ymgysylltu â'r Panel Dinasyddion<br><br>Cynnal gweithio ar y cyd trwy gynnal cyfarfodydd o'r Gweithgor Technegol a mynychu fforymau rhanbarthol | |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr ACI a'r ARhC – asesu safleoedd ymgeisiol, opsiynau strategol a safleoedd | Sicrhau bod y weledigaeth, yr opsiynau strategol a'r safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn fframweithiau Sgrinio arfaethedig yr ACI a'r ARhC | Tachwedd 2023 – Medi 2024 | Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol (Cadw a CNC)<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff Ymgynghori Cyffredinol fel sy'n briodol | E-bost / llythyr<br><br>Cyfarfodydd yn ôl y gofyn. | Adroddiad ymgynghori |

*Tabl C.0.3: Ymgynghoriad Cyn-adnau (Rheoliad 15)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghori ar y Cynllun Cyn-adnau (Strategaeth a Ffafrir) | Galluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ymateb i'r strategaeth a ffafrir ac awgrymu addasiadau<br><br>Darparu cyfle i nodi safleoedd amgen posibl sy'n cyfateb i'r strategaeth a ffafrir<br><br>Meithrin consensws | Tachwedd 2024 – Rhagfyr 2024 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | E-bost/llythyr at yr holl bartïon â diddordeb<br><br>Gwefan – yr holl wybodaeth i gael ei rhoi ar wefan y Cyngor, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin a ffurflenni sylwadau.<br><br>Copïau papur o ddogfennau allweddol a ffurflenni sylwadau i gael eu gosod mewn Lleoliadau Adnau<br><br>Hysbysebu'r ymgynghoriad trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor<br><br>Dosbarthu posteri<br><br>Hysbysebu'r ymgynghoriad gan ddefnyddio sgriniau digidol lle bo modd, a lle bod hynny'n briodol | Cydnabod sylwadau a wnaed yn briodol trwy lythyr/e-bost<br><br>Cyflwyno crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i Fwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a'r Gwasanaethau Strydlun. |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Hyrwyddo'r ymgynghoriad trwy ymgyrch ar y radio neu sylwadau bachog ar y radio<br><br>Anfon Nodyn Briffio i bob llyfrgell.<br><br>Sesiynau galw heibio / Arddangosfeydd<br><br>Briffio'r Cydlynwyr Ardal Leol<br><br>Diweddaru'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Panel Dinasyddion | |
| Ymgynghori ar Adroddiad Interim yr ACI | Dangos sut mae'r CDLlA yn cydymffurfio â fframwaith yr ACI/ARhC a Rheoliadau'r AAS | Tachwedd 2024 – Rhagfyr 2024 | Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol (Cadw a CNC)<br><br>Yr holl bartïon a restrir yn | E-bost / llythyr.<br><br>Fel uchod | Cyflwyno crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'r Bwrdd Cabinet Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, a'u darparu ar wefan y |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran 5 o'r ddogfen hon. | | Cyngor yn ystod yr ymgynghori ar y Cynllun Adnau |
| Adborth Cymunedol ar Safleoedd Ymgeisiol (yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir) | Gwahodd sylwadau a barn ar safleoedd a gyflwynwyd<br><br>Ceisio cefnogaeth y gymuned i'r safleoedd ymgeisiol | Tachwedd 2024 – Rhagfyr 2024 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon.<br><br>. | Darparu Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol rithwir, fel bod modd cyflwyno sylwadau ar-lein fel rhan o'r ymgynghoriad Cyn-adnau (rheoliad 15). | Derbyn sylw fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir – bydd yr ymatebion yn cael eu cydnabod trwy lythyr/e-bost a rhoddir crynodebau adroddiad ymgynghori'r Cynllun Cyn-adnau (Strategaeth a Ffafrir). |

*Tabl C.0.4: Y CDLlA Adnau a'r Dogfennau Cysylltiedig (Rheoliad 17)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi'r Cynllun Adnau, yr Adroddiad ACI, a'r Adroddiad ARhC | Datblygu'r CDLlA Adnau o gyfnodau blaenorol proses y Cynllun<br><br>Paratoi'r Adroddiad ACI<br><br>Paratoi'r Adroddiad ARhC | Mawrth 2025 – Medi 2025 | Gweithgorau Technegol<br><br>Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyffredinol ac Amgylcheddol<br><br>Y Grŵp Rhanddeiliaid allweddol<br><br>Gweithgor Aelodau'r CDLlA<br><br>Fforymau Rhanbarthol | E-bost/llythyr<br><br>Cyfarfodydd, yn ôl y galw. | Amherthnasol |
| Gosod y CDLlA a'r dogfennau cysylltiedig ar Adnau (gan gynnwys adroddiad yr ACI ac adroddiad yr ARhC) | Galluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau ar y CDLlA Adnau a'r dogfennau ategol cysylltiedig | Tachwedd 2025 – Rhagfyr 2025 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | Hysbysu'r holl randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyfranogi trwy e-bost<br><br>Rhoddir yr holl wybodaeth ar wefan y Cyngor, | Cydnabod sylwadau a wnaed yn briodol trwy lythyr/e-bost<br><br>Cyflwyno crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ynghyd ag ymateb y Cyngor, |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gan gynnwys atebion i Gwestiynau Cyffredin a meysydd sy'n peri dryswch<br><br>Copïau papur o'r holl ffurflenni sylwadau a gwybodaeth mewn Lleoliadau Adnau<br><br>Hysbysu pawb trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol<br><br>Dosbarthu posteri yn ôl y galw<br><br>Hysbysebu'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio sgriniau digidol, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol<br><br>Hysbysebu'r ymgynghoriad trwy ymgyrch ar y radio | i Fwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Strydlun<br><br>a'u darparu mewn Lleoliadau Adnau ac ar wefan y Cyngor<br><br>Ystyried y sylwadau ac addasu'n unol â hynny.<br><br>Nodir sylwadau yn yr Adroddiad Ymgynghori |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a sylwadau bachog ar y radio<br><br>Anfon Nodyn Briffio i bob llyfrgell.<br><br>Briffio Cydlynwyr Ardal Leol<br><br>Rhoi diweddariad i'r BGC a'r Panel Dinasyddion | |

*Tabl C.0.5: Cyflwyno'r CDLIA i Lywodraeth Cymru a PEDW ar gyfer Archwiliad (Rheoliad 22)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r CDLIA a'r dogfennau cysylltiedig (gan gynnwys yr ACI, yr ARhC a'r Adroddiadau | Cyflwyno'r cynllun i LlC a rhoi gwybod i randdeiliiaid a'r cyhoedd bod y Cyngor wedi cyflwyno ei CDLIA i LlC | Mehefin 2026 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | E-bost/llythyr<br><br>Diweddaru gwefan y Cyngor<br><br>Copïau papur o'r holl ddogfennau | Amherthnasol |

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghori Terfynol) i'w harchwilio | | | | yn y Lleoliadau Adnau.<br><br>Platfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. | |

*Tabl C.0.6: Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi Hysbysiad ynghylch yr Archwiliad Annibynnol | Sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cael gwybod bod Archwiliad Annibynnol o'r CDLlA i gael ei gynnal | Gorffennaf 2026 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | Dyma fydd cylch gorchwyl Swyddog y Rhaglen | Amherthnasol |
| Cyfarfod cyn-archwiliad | Caniatáu i'r Arolygydd Cynllunio Annibynnol gynghori ar weithdrefnau a fformat yr Archwiliad | Medi 2026 | Pawb a gyflwynodd sylwadau ac unrhyw randdeiliaid sydd wedi gofyn am gael gwybod am gynnydd y CDLlA | Dyma fydd cylch gorchwyl Swyddog y Rhaglen | Amherthnasol |
| Archwilio'r Cynllun a holl ddogfennau'r sylfaen o dystiolaeth | Darparu barn gynllunio ddiduedd ar gadernid y Cynllun a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr | Medi 2026 – Rhagfyr 2026 | Pawb a gyflwynodd sylwadau ac unrhyw randdeiliaid sydd wedi gofyn am gael gwybod am | Dyma fydd cylch gorchwyl Swyddog y Rhaglen, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cynllunio | Amherthnasol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymgynghori ar y Cynllun Adnau | | gynnydd y CDLlA | Annibynnol a benodwyd | |

*Tabl C.0.7: Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn / cyhoeddi Adroddiad rhwymol yr Arolygydd | Rhoi gwybod i randdeiliaid am benderfyniadau'r Arolygydd | Chwefror 2027 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | Gosod ar wefan y Cyngor<br><br>E-bost/llythyr<br><br>Copïau papur o'r holl ddogfennau yn y Lleoliadau Adnau<br><br>Cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol | Amherthnasol |

*Tabl C.0.8: Mabwysiadu'r CDLlA (Rheoliad 25)*

| Cyfnod yn y Broses o Baratoi'r Ddogfen | Diben | Amserlen (Pryd?) | Pwy? Cynnwys y Gymuned | Sut? Mecanwaith Ymgynghori | Adborth/ Mecanwaith Adrodd |
|---|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadu'r CDLlA yn ffurfiol fel Cynllun Datblygu ar gyfer CNPT | Rhoi gwybod i randdeiliaid a phartïon â diddordeb bod y CDLlA wedi'i fabwysiadu | Ebrill 2027 | Yr holl bartïon a restrir yn Adran 5 o'r ddogfen hon. | Cyhoeddusrwydd ar wefan y Cyngor<br><br>Hysbysu rhanddeiliaid a chyfranogwyr yr Archwiliad<br><br>Rhoi copi papur o'r Cynllun a Fabwysiadwyd, y Datganiad Mabwysiadu a'r ACI yn y Lleoliadau Adnau | Bydd hyn yn sbarduno'r angen am yr AMB cyntaf (tua 12-18 mis ar ôl mabwysiadu) |

## Atodiad D – Adolygiad o'r Cynllun Blaenorol ar gyfer Cynnwys y Gymuned (CC CDLl, Gorffennaf 2013) a (CC CDLlA, Ionawr 2022)

D.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Paragraff 3.21) yn awgrymu, wrth baratoi Cynllun Cynnwys y Gymuned ar gyfer CDLlA, y dylid ystyried gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun blaenorol.

D.2 Cytunwyd ar y Cynllun Cynnwys y Gymuned ar gyfer CDLl cyntaf (cyfredol) CNPT fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y cynllun hwnnw ym mis Medi 2008, ac fe'i newidiwyd ym mis Mai 2011 ac ym mis Gorffennaf 2013. Paratowyd yr ail Gynllun ar gyfer cyfnod cychwynnol y CDLlA (2021-2036), a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022.

D.3 Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, a bu llawer ohonynt yn llwyddiannus, fel y gwelir o swm yr ohebiaeth a nifer y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y broses o baratoi'r cynllun. Fodd bynnag, ni chafodd rhai dulliau penodol y canlyniadau a ragwelwyd, neu ni farnwyd eu bod yn effeithlon o ran amser neu adnoddau. Cyfeirir at y rhain isod:

- Yng nghyfnodau cynnar y broses o baratoi'r cynllun, defnyddiwyd cylchgrawn cymunedol yr Awdurdod at ddibenion cyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ariannol daeth cyhoeddi'r cylchgrawn i ben, ac nid yw'r dull ymgysylltu hwn ar gael bellach. Yn hytrach, bydd proses y CDLlA yn cael ei hybu trwy'r canlynol:
    - 'In the Loop', sef cylchgrawn ar-lein a gynhyrchir gan y Cyngor, ac sy'n cael ei anfon at holl gyflogeion y Cyngor (tua 4,500 o staff) bob mis, yn rhoi gwybod iddyn nhw, ymhlith pethau eraill, am ymgyngoriadau cyfredol a sut mae bod yn rhan ohonynt. Mae llawer o gyflogeion y Cyngor yn byw yn CNPT, ac mae gan bob un o'r lleill ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd.
    - Newyddion CNPT, sef cylchlythyr misol ar-lein sydd â rhyw 2,000 o danysgrifwyr.
    - The Sway, sef bwletin newyddion wythnosol (tua 4,500 o ddarllenwyr).
    - Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol (manylion pellach isod)
    - Posteri a hysbysiadau ar Sgriniau LCD (manylion pellach isod)

- Fel dewis amgen, ceisiodd yr Awdurdod ddosbarthu gwybodaeth i bob preswylfa a busnes trwy bostio taflenni ar dri achlysur ar adegau arwyddocaol yn y broses o baratoi'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r adborth yn awgrymu, gan fod y taflenni wedi cael eu dosbarthu gyda phost torfol arall, bod tuedd iddyn nhw gael eu taflu i ffwrdd heb eu darllen. Nid oes bwriad i ailadrodd y dull hwnnw, felly. Yn hytrach, bydd yr hyrwyddo'n canolbwyntio ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu a phosteri/Hysbysiadau Sgrîn LCD mewn gwasanaethau cymunedol lleol allweddol a chyfleusterau fel Llyfrgelloedd, Meddygfeydd, Ysbytai, Swyddfeydd y Cyngor, Canolfannau Hamdden, Arosfannau Bws, Hybiau Trafnidiaeth a Hysbysfyrddau Cymunedol. Bydd Aelodau Etholedig Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a Chydlynwyr Ardal Leol hefyd yn cael eu defnyddio i helpu i ddosbarthu posteri a rhannu eu neges.
- Yn flaenorol, roedd copïau printiedig o'r holl ddogfennau yn cael eu darparu yn yr holl lyfrgelloedd cyhoeddus ar draws y fwrdeistref sirol. Ond nid ymddangosai fod hynny'n ennyn llawer o ddiddordeb nac ymateb, ac roedd angen adnoddau sylweddol i'w roi ar waith. Mae pryderon hefyd, yn dilyn Pandemig Covid-19, y gallai'r cyhoedd fod yn llai parod i drafod copïau papur o ddogfennau cymunedol / sydd ar gael i'r cyhoedd. Y bwriad bellach yw rhoi copïau printiedig yn y lleoliadau adnau yn unig, yn unol â Rheoliadau'r CDLl. Fodd bynnag, yn absenoldeb copïau papur o'r dogfennau, bydd nodiadau cyfarwyddyd yn egluro sut mae gweld dogfennau'r CDLlA ar-lein yn cael eu darparu i'r Llyfrgelloedd.
- Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Safleoedd Ymgeisiol, postiwyd hysbysiadau safle i roi cyhoeddusrwydd i safleoedd a gyflwynwyd. Er bod hynny'n aml wedi creu cryn ddiddordeb ac ymwybyddiaeth yn lleol, roedd yn tueddu i greu dryswch a gwrthdaro, gan fod pobl yn cymryd yn aml bod yr hysbysiadau'n rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau cynllunio neu ddatblygiadau a gymeradwywyd, yn hytrach nag awgrymiadau ar gyfer y cynllun. Eto, roedd y broses hon yn ddrud o ran adnoddau, ni farnwyd ei bod o fudd yn gyffredinol, ac nid oes bwriad i barhau â'r dull hwn. Bydd gwybodaeth ynghylch y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn cael ei darparu ar wefan y Cyngor: ([www.npt.gov.uk](http://www.npt.gov.uk)) a thudalennau'r CDLlA: [www.npt.gov.uk/rldp](http://www.npt.gov.uk/rldp), yn ogystal ag

mewn lleoliadau adnau unwaith bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) wedi cael ei chyhoeddi. Aelodau Lleol fydd hyrwyddwyr eu ward etholiadol/hetholwyr. Mae modd darparu adborth ar y Safleoedd Ymgeisiol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

- Yn dilyn ymlaen o'r digwyddiadau ymgysylltu â gynhaliwyd fel rhan o CDLIA 2021 - 2036, o ystyried y terfynau amser caeth ar gyfer paratoi'r cynllun, ynghyd â'r niferoedd isel a fu'n dod i ddigwyddiadau, penderfynwyd cyfuno cyfarfodydd yr ardal ofodol, o 8 cyfarfod unigol, a'u grwpio yn ôl y materion mae angen eu trafod. Bydd hyn yn golygu bod modd ymgysylltu'n ehangach, a nodi materion a allai godi ar draws ardaloedd.

D.4 Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar brosesau ymgysylltu ac ymgynghori, fel bod mwy o ffocws ar ymgysylltu'n rhithwir, yn arbennig lle nad oes modd hwyluso cadw pellter cymdeithasol mewn ymarferion ymgynghori. O ganlyniad, bydd ymgysylltu ac ymgynghori wrth baratoi'r cynllun hwn yn cael ei hwyluso fwyfwy trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, arolygon a fforymau ar-lein, a phlatfformau cyfarfod rhithwir. Ymgysylltir â'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol trwy gyfleoedd i weld y dogfennau gydag apwyntiad yn y 3 lleoliad adnau, posteri mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol allweddol, a bydd nodiadau arweiniol yn cael eu darparu i Lyfrgelloedd ynghylch sut mae cynorthwyo pobl i weld dogfennau ar-lein, gan ddefnyddio'r cyfleusterau cyfrifiadurol sydd yno. Cedwir at ganllawiau Covid presennol y Llywodraeth ar gyfer yr holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir. Mae canllawiau pellach ar gael yma: https://gov.wales/protect-yourself-others-coronavirus.

D.5 Bu nifer o newidiadau hefyd yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n ymwneud â pharatoi CDLliau, gan gynnwys cyflwyno Rheoliadau CDLliau diwygiedig yn 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r Llawlyfr diwygiedig ar gyfer Cynlluniau Datblygu yn 2020. Bydd angen i'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu fod yn unol â gofynion y newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddwy haen newydd o gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol). Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) yn 2021. Mae Adran 7(1) o Ddeddf

Cynllunio (Cymru) 2015 yn gofyn bod CDLl yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol.

D.6 O ran deddfwriaeth arall newydd, mae pwysigrwydd sylweddol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Chynllun Llesiant dilynol CNPT. Mae'r Ddeddf yn arbennig yn gofyn bod awdurdodau lleol yn ymgymryd â'u swyddogaethau mewn cydweithrediad ag eraill, gan gynnwys cyrff cyhoeddus eraill, ac yn cynnwys y gymuned a phartïon â diddordeb wrth wneud penderfyniadau. Bydd angen i'r Cynllun ar gyfer Cynnwys y Gymuned ymgorffori'r dulliau hyn o weithio, er mwyn sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei gweithredu'n llawn.

## Atodiad E- Proffil Cymunedol

Mae’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi y dylai’r Cyngor lunio proffil o’r gymuned er mwyn nodi’r ystod fwyaf priodol o fuddiannau i’w cynnwys yn y broses o baratoi’r CDLIA. Mae’r pwyntiau bwled isod yn crynhoi’r prif nodweddion perthnasol ymhlith poblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Ceir manylion llawn a chrynodeb o’r canfyddiadau isod.

- Yn y cyfnod diweddaraf mae gan y Fwrdeistref Sirol **boblogaeth oedran gweithio** o 86,700.
- Mae **proffil oed** CNPT yn cyfateb i **gyfartaledd Cymru:**
    - **16-64 oed: 61.1%**, o gymharu â chyfartaledd o 60.9% yng **Nghymru; a**
    - **65 oed a throsodd: 21.1%**, o gymharu â chyfartaledd o 21.4% yng Nghymru (Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS (2021)).

Mae cyfraddau is na chyfartaledd Cymru o oedolion 16+ CNPT yn gallu **siarad Cymraeg**: 13.0% o gymharu â chyfartaledd o 18.0% yng Nghymru.

O ran **cyfeiriadedd rhywiol**, mae cyfran uwch o’r trigolion yn CNPT na chyfartaledd Cymru yn nodi eu bod yn wahanrywiol (89.7% o gymharu ag 89.4%); yn hoyw neu’n lesbiaidd (1.6% o gymharu ag 1.5%); a chyfran is yn nodi eu bod yn ddeurywiol (1.0% o gymharu ag 1.2%); yn banrywiol (0.1% o gymharu â 0.2%); ac yn anrhywiol (0.0% o gymharu ag 0.1%); a’r un gyfran yn nodi eu bod yn gwiar (0.0%). (Cyfrifiad ONS 2021))

Mae llai o **amrywiaeth ethnig** yn CNPT na chyfartaledd Cymru. Mae gan CNPT:

- Gyfran uwch o drigolion gwyn (96.6% o gymharu â 93.8%);
- Llai o drigolion o grwpiau ethnig cymysg/lluosog (1.1% o gymharu ag 1.6%);
- Llai o drigolion Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (1.6% o gymharu â 2.9%);
- Llai o drigolion Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig (0.4% o gymharu â 0.9%); a

- Llai o drigolion ag ethnigrwydd arall (0.3% o gymharu â 0.9%). (Cyfrifiad ONS (2021))

Mae gan CNPT gyfran uwch o drigolion sydd â **iechyd** gwaelach a mwy o **anabledd** na chyfartaledd Cymru:

- Mae llai o drigolion yn adrodd bod ganddyn nhw ‘iechyd da iawn neu dda’ (75.8% o gymharu â 78.6%);
- Mae cyfran uwch yn adrodd bod ganddyn nhw ‘iechyd gwael neu wael iawn’ (8.8% o gymharu â 6.9%); ac
- Mae cyfran uwch yn dweud bod ‘llawer o gyfyngu’ ar eu gweithgareddau beunyddiol (13.2% o gymharu â 10.3%) ac ‘ychydig o gyfyngu’ (11.9% o gymharu ag 11.3%). (Cyfrifiad ONS (2021))
- Mae cyfran uwch o drigolion CNPT yn darparu **gofal di-dâl** na chyfartaledd Cymru (12.2% o gymharu â 10.5%) ac mae cyfran sylweddol uwch (4.6% o gymharu â 3.6%) yn darparu mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos. (Cyfrifiad ONS (2011))

O ran **gweithgarwch economaidd**, o gymharu â chyfartaledd trigolion oedran gweithio Cymru:

- Mae gan CNPT gyfran is sy’n economaidd weithredol (73.4% o gymharu â 75.5%);
- Mae gan CNPT gyfran is o bobl sy’n ddi-waith (3.0% o gymharu â 3.3%);
- Mae cyfran uwch yn dioddef o salwch hirdymor ac yn economaidd segur (42.8% o gymharu â 34.5%);
- Mae cyfran debyg wedi ymddeol (12.2% o gymharu â 12.0%);
- Mae cyfran debyg yn segur am resymau eraill (11.4% o gymharu â 10.6%);
- Mae cyfran is o’r trigolion oedran gweithio sy’n economaidd segur yn fyfyrwyr (7.0% o gymharu â 22.7%); ac

- Mae cyfran sylweddol uwch yn economaidd segur ac yn gofalu am deulu/gartref (7.7% o gymharu ag 1.6%). (Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS (2023))

Mae gan CNPT gyfran uwch o **fentrau bach a chanolig** na chyfartaledd Cymru (7.0% o gymharu â 4.6%).

(Cofrestr Fusnes Ryngadrannol yr ONS (2020)) O ran **incwm a thlodi**:

- Mae enillion wythnosol gros cyfwerth ag amser llawn CNPT yn fwy na chyfartaledd Cymru (£611.00 o gymharu â £603.50).

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn nodi ardal ddofn o amddifadedd o amgylch pentref Croeserw yng Nghwm Afan (LSOA ‘Cymer 2’) ac yn dangos yn fwy cyffredinol bod cyfraddau uwch o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) yn ddifreintiedig. (Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS (2020))

Mae gan CNPT gyfradd is o aelwydydd sy’n anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth na chyfartaledd Cymru (25 o gymharu â 30)/(Llywodraeth Cymru (2022)).

Mae data’r Cyfrifiad diweddaraf yn nodi 47 **o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr** yn CNPT, allan o gyfanswm o 1,004 yng Nghymru (Cyfrifiad ONS (2011)).

## E.1. Poblogaeth

Tabl E.1: Poblogaeth

| Poblogaeth | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfanswm Poblogaeth | 141,900 | 3,105,400 |
| Benywod | 72,300 (51.0%) | 1,585,700 (51.1%) |
| Gwrywod | 69,600 (49.0%) | 1,519,700 (48.9%) |
| Ardal (ha) | 44,200 | 2,073,511 |
| Dwysedd (personau fesul ha) | 3.2 | 1.5 |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS (2021)*


## E.2. Strwythur Oedran

Tabl E.2: Strwythur Oedran

| Strwythur Oedran | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| 0-15 | 17.6% | 17.6% |
| 16-64 | 61.1% | 60.9% |
| 65+ | 21.3% | 21.4% |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS (2021)*

Ffigur E.2: Strwythur Oedran





*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS (2021)*

## E.3. Ethnigrwydd

Tabl E.3: Ethnigrwydd

| Ethnigrwydd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Gwyn | 96.6% | 93.8% |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig | 1.6% | 2.9% |
| Grwpiau Ethnig Cymysg neu Luosog | 1.1% | 1.6% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.4% | 0.9% |
| Grŵp Ethnig Arall | 0.3% | 0.9% |

Ffigur E.3: Ethnigrwydd





*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.4. Hunaniaeth Rhywiol

Tabl E.4: Hunaniaeth Rhywiol

| Hunaniaeth Rhywiol | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Syth neu Wahanrywiol | 89.7% | 89.4% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 1.6% | 1.5% |
| Panrywiol | 0.1% | 0.2% |
| Anrhywiol | 0.0% | 0.1% |
| Cwiar | 0.0% | 0.0% |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 0.0% | 0.0% |
| Heb ateb | 7.5% | 7.6% |

Ffigur E.4: Hunaniaeth Rhywiol





*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.5. Iechyd

Tabl E.5: Iechyd

| Iechyd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Iechyd da iawn | 45.4% | 46.2% |
| Iechyd da | 30.4% | 32.4% |
| Iechyd gweddol | 15.4% | 14.5% |
| Iechyd gwael | 6.6% | 5.3% |
| Iechyd gwael iawn | 2.2% | 1.7% |

Ffigur E.5: Iechyd





*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.6. Anabledd

Tabl E.6: Anabledd

| Anabledd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Ag anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 25.1% | 21.6% |
| Heb fod ag anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 74.9% | 78.4% |
| Cyfyngu llawer ar weithgareddau beunyddiol | 13.2% | 10.3% |
| Cyfyngu ychydig ar weithgareddau beunyddiol | 11.9% | 11.3% |
| Cyflwr iechyd corff neu feddwl hirdymor, ond dim cyfyngu ar weithgareddau beunyddiol | 6.2% | 6.6% |
| Dim cyflyrau iechyd corff na meddwl hirdymor | 68.7% | 71.8% |

Ffigur E.6: Anabledd




*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.7. Gofal Di-dâl

Tabl E.7: Gofal Di-dâl

| Gofal Di-dâl | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Yn darparu dim gofal di-dâl | 87.8% | 89.5% |
| Yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 4.8% | 4.7% |
| Yn darparu 20-49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 2.9% | 2.2% |
| Yn darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos | 4.6% | 3.6% |

Ffigur E.7: Gofal Di-dâl





*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.8. Nodweddion Aelwydydd

Tabl E.8: Nodweddion Aelwydydd

| Nodweddion Aelwydydd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Heb briodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil erioed | 36.6% | 37.2% |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 42.9% | 43.8% |
| Wedi gwahanu, ond yn dal yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol | 2.2% | 2.0% |
| Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu | 10.8% | 9.9% |
| Gweddw neu'n bartner sydd wedi goroesi o bartneriaeth sifil | 7.5% | 7.1% |

Ffigur E.8: Nodweddion Aelwydydd





*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)*

## E.9. Gweithgarwch Economaidd

Tabl E.9: Gweithgarwch Economaidd

| Gweithgarwch Economaidd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Economaidd weithredol | 73.4% | 75.5% |
| Mewn cyflogaeth | 71.1% | 73.0% |
| Cyflogeion | 65.5% | 64.3% |
| Hunangyflogedig | 5.6% | 8.4% |
| Di-waith | 3.2% | 3.3% |

Ffigur E.9: Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (Poblogaeth Oedran Gweithio)





*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS (2023)*

## E.10. Segurdod economaidd

Tabl E.10: Segurdod economaidd

| Segurdod economaidd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Pawb | 26.6% | 24.5% |
| Myfyrwyr | Dim data | 22.7% |
| Gofalu am y teulu/cartref | 25.0% | 17.3% |
| Salwch dros dro | Dim data | 2.6% |
| Salwch hirdymor | 42.8% | 34.5% |
| Wedi digalonni | Dim data | Dim data |
| Wedi ymddeol | 12.2% | 12.0% |
| Arall | 11.4% | 10.6% |

Ffigur E.10: Cyfradd Segurdod Economaidd (Poblogaeth Oedran Gweithio)





*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2023)*

## E.11. Enillion yn ôl Trigfan

Tabl E.11: Enillion yn ôl Trigfan

| Enillion yn ôl Trigfan | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Gweithwyr Amser Llawn | £611.00 | £603.50 |
| Gweithwyr Gwryw Amser Llawn | £632.30 | £584.50 |
| Gweithwyr Benyw Amser Llawn | £444.70 | £434.60 |

Ffigur E.111: Enillion yn ôl Trigfan




*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2023)*


## E.12. Lefelau a Dosbarthiad Tlodi

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (2019) yn dangos bod gan CNPT:

- Y bumed boblogaeth uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (15.0%);
- Y drydedd uchaf o fewn y 20% mwyaf difreintiedig (33.0%);
- Y drydedd uchaf o fewn y 30% mwyaf difreintiedig (45.0%); a’r

- Bedwaredd uchaf o fewn y 50% mwyaf difreintiedig (69.0%).


Ffigur E.12.1: Plotiad Blwch o Safleoedd Cyffredinol WIMD 2019, fesul Awdurdod Lleol




*Ffynhonnell: Adroddiad Canlyniadau WIMD Llywodraeth Cymru (2019)*

Mae'r WIMD yn nodi'n arbennig ardal ddofn o amddifadedd o amgylch pentref Croeserw yng Nghwm Afan (LSOA 'Cymer 2').

Ffigur E.12.2: Ardaloedd Amddifadedd Dwfn yn ne Cymru




*Ffynhonnell: Adroddiad Canlyniadau WIMD Llywodraeth Cymru (2019)*

## E.13. Tlodi Tanwydd

Tabl E.13: Tlodi Tanwydd

| Tlodi Tanwydd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd | 11.0% | 12.0% |

Ffigur E.13: Canran yr Aelwydydd mewn Tlodi Tanwydd




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020)*

## E.14. Digartrefedd

Tabl E.14: Digartrefedd

| Digartrefedd | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Aelwydydd a aseswyd fel rhai digartref, y mae dyletswydd i'w diogelu (Adran 73)<br><br>Cyfraddau fesul 10,000 o aelwydydd | 88.0 | 91.2 |
| Aelwydydd y llwyddwyd i'w harbed rhag bod yn ddigartref (Adran 73)<br><br>Cyfraddau fesul 10,000 o aelwydydd | 31.9 | 37.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Aelwydydd sy'n anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth (Adran 75)<br><br>Cyfraddau fesul 10,000 o aelwydydd | 16.6 | 22.5 |
| Aelwydydd a gafodd eu rhyddhau'n gadarnhaol o ddigartrefedd (Adran 75)<br><br>Cyfraddau fesul 10,000 o aelwydydd | 15.6 | 17.6 |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2023)*

### E.15. Amcan o Nifer y rhai sy'n Cysgu Allan

Tabl E.15: Rhai sy'n Cysgu Allan

| Rhai sy'n Cysgu Allan | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Amcan o nifer y rhai sy'n cysgu allan | 12 | 405 |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020)*

### E.16. Poblogaeth a Llety Sipsiwn a Theithwyr

Tabl E.16: Poblogaeth a Llety Sipsiwn a Theithwyr

| Poblogaeth a Llety Sipsiwn a Theithwyr | CNPT | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr<br><br>(Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2011)) | 47 | 1,004 |
| Cyfanswm nifer y lleiniau<br><br>(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020)) | 65 | 405 |
| Cyfanswm nifer y carafanau | 101 | 1,092 |
| Nifer y safleoedd awdurdodedig<br><br>(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020)) | 3 | 102 |
| Nifer y safleoedd heb eu hawdurdodi<br>(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2020) | 0 | 34 |

## Atodiad F – Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol

### F.1. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (KSG)

Gall aelodaeth y KSG newid dros amser, gan fod sefydliadau'n newid yn barhaus trwy gyfuno, ailfrandio neu ddod i ben. Bydd y KSG yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r canlynol:

### F.2. Rhestr o'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol

| | |
|---|---|
| • Awdurdodau Cyfagos* (F.2)<br>• Age Connect (Concern) Castell-nedd Port Talbot<br>• Yr holl Ddarparwyr Tai Cymdeithasol (sy'n gweithredu yn Ardal yr Awdurdod) [Tai Tarian, Tai Coastal, Pobl, Aelwyd, Cymdeithas Tai Newydd, Linc Cymru, Cymdeithas Tai Teulu a Tai Gwalia].<br>• BT Group Plc<br>• BT Openreach<br>• Cyswllt Busnes Castell-nedd Port Talbot<br>• CADW<br>• Celtic Leisure<br>• Dŵr Cymru (DCWW)<br>• Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)<br>• Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg/Gwent | • Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot<br>• Ysbyty Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, YOVO a Junior YOVO<br>• Cynghorau Cymuned Cymdogol* (F.4)<br>• Network Rail Ltd<br>• Y Cynghrair Pobl Hŷn<br>• Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion a Chofebau Hanesyddol Cymru<br>• Heddlu De Cymru<br>• Chwaraeon Cymru<br>• Bargen Ddinesig Bae Abertawe<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>• Tata Steel<br>• Ysbyty Tonna<br>• Cynghorau Tref a Chymuned yn CNPT* (F.3) |

| | |
|---|---|
| • Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) Cymru<br>• Canolfan Byd Gwaith<br>• Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot<br>• Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>• Fforwm Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot<br>• Cymdeithas Du, Asiaidd a Chymunedau Ethnig Lleiafrifol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (NPT CVS) | • Trafnidiaeth Cymru (TfW)<br>• Viva Port Talbot (Rhanbarth Gwella Busnes Port Talbot)<br>• Western Power<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Aelodau Seneddol (MPs) ac Aelodau o'r Senedd (AS) ar gyfer Etholaethau Castell-nedd Port Talbot |

### F.2 Awdurdodau Cyfagos

| |
|---|
| • Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>• Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Cyngor Sir Powys<br>• Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf<br>• Cyngor Dinas a Sir Abertawe |

## F.3 Cynghorau Tref a Chymuned yn CNPT

- Cyngor Cymuned Blaengwrach
- Cyngor Cymuned Blaenhonddan
- Cyngor Tref Llansawel
- Cyngor Cymuned Cilybebyll
- Cyngor Cymuned Clun a Melincwrt
- Cyngor Tref Coedffranc
- Cyngor Cymuned y Creunant
- Cyngor Cymuned Cwmllynfell
- Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach
- Cyngor Tref Glyn-nedd
- Cyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen
- Cyngor Tref Castell-nedd
- Cyngor Cymuned Onllwyn
- Cyngor Cymuned Pelena
- Cyngor Tref Pontardawe
- Cyngor Cymuned Resolfen
- Cyngor Cymuned Blaendulais
- Cyngor Cymuned Tonna
- Cyngor Cymuned Ystalyfera

F.4 Cynghorau Cymuned Cymdogol

- Cyngor Cymuned y Betws
- Cyngor Cymuned Cefn Cribwr
- Cyngor Cymuned Clydach
- Cyngor Tref Corneli
- Cyngor Tref Cwmaman
- Cyngor Cymuned Bro Garw
- Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol
- Cyngor Tref Maesteg
- Cyngor Cymuned Mawr
- Cyngor Cymuned Bro Ogwr
- Cyngor Cymuned y Pîl
- Cyngor Cymuned Cwarter Bach
- Cyngor Cymuned y Rhigos
- Cyngor Cymuned Ystradfellte
- Cyngor Tref Ystradgynlais

## Atodiad G – Cyrff Ymgynghori Penodol

### Cyrff Ymgynghori Penodol (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 CDLliau)

*G.1 Rhaid i ACLlau ymgynghori â'r cyrff canlynol yn unol â Deddf 2004 a Rheoliadau CDLliau:*

i. Llywodraeth Cymru – Yn ogystal â chynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ystod eang o faterion polisi sy'n cynnwys amaeth, datblygu economaidd, addysg, yr amgylchedd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd hanesyddol, tai, diwydiant, twristiaeth, trafnidiaeth a'r iaith Gymraeg. Bydd Is-adran Cynllunio Llywodraeth Cymru yn cydlynu'r ymgyngoriadau oddi mewn i Lywodraeth Cymru.

ii. Cyfoeth Naturiol Cymru

iii. Network Rail Infrastructure Limited (Western & Wales - Property)

iv. Yr Ysgrifennydd Gwladol – i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymarfer swyddogaethau a fu gynt yn ymarferadwy gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Deddf Rheilffyrdd 2005)

v. Awdurdod perthnasol (h.y. awdurdod cynllunio lleol neu gyngor tref neu gymuned), y mae unrhyw ran o'i ardal yn ardal yr awdurdod neu am y ffin â hi

vi. Unrhyw berson y mae'r côd cyfathrebu electronig yn berthnasol iddynt trwy rinwedd cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 106(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

vii. Unrhyw berson sy'n berchen ar gyfarpar electronig neu'n ei reoli mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod (lle bo hynny'n hysbys)

viii. Unrhyw rai o'r cyrff yn y rhestr ganlynol sy'n ymarfer swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod:

a. Bwrdd Iechyd Lleol

b. person y rhoddwyd trwydded iddynt o dan adran 6(1)(b) neu (c) o Ddeddf Trydan 1989

c. person y rhoddwyd trwydded iddynt o dan adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986

d. ymgymerwr carthffosiaeth

e. ymgymerwr dŵr

### *G.2 Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig*

Dylai awdurdod ymgynghori ag adrannau o Lywodraeth y Deyrnas Unedig lle’r ymddengys bod agweddau ar gynllun, neu gynigion i’w ddiwygio neu ei amnewid, yn effeithio ar eu buddiannau. Yn arbennig, dylid ymgynghori â’r canlynol ar y meysydd polisi a amlinellir isod:

i. Adran Trafnidiaeth a Rheilffyrdd, polisi meysydd awyr a morol/porthladdoedd

ii. Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, polisi ynni’r Deyrnas Unedig

iii. Y Swyddfa Gartref, materion amddiffyniad sifil, polisïau ar gyfer carcharau etc

iv. Y Weinyddiaeth Amddiffyn, materion sy’n debygol o effeithio ar ei daliadau tir a’i gosodiadau, neu lle gellid bod yn ystyried gwaredu darnau mawr o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn

### *G.3 Cyrff Ymgynghori Penodol*

Ymgynghorir â’r rhestr hon o ymgyngoreion ynghylch holl gyfnodau allweddol y cynllun, trwy lythyr neu e-bost (yn ôl eu dewis), a rhoddir copïau o’r holl ddogfennau perthnasol iddynt i’w hystyried, trwy e-bost neu trwy’r post.

- Aelwyd
- Cyngor Cymuned y Betws
- Cyngor Cymuned Blaengwrach
- Cyngor Cymuned Blaenhonddan
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Tref Llansawel
- Pencadlys BT Openreach
- BT Group Plc
- Cadw
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Cymuned Cefn Cribwr
- Celtic Leisure
- Centrica Energy
- Cyngor Cymuned Cilybebyll
- Cyngor Cymuned Clydach
- Cyngor Cymuned Clun a Melincwrt
- Tai Coastal
- Cyngor Cymuned Coedffranc
- Cyngor Tref Corneli
- Cyngor Cymuned y Creunant
- Cyngor Tref Cwmaman
- Cyngor Cymuned Cwmllynfell
- Adran Ynni Busnes a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)
- Adran Trafnidiaeth
- Dŵr Cymru
- Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach
- E E
- Ecotricity
- EDF Energy
- Cymdeithas Tai Teulu
- Cyngor Cymuned Bro Garw
- Cyngor Tref Glyn-nedd
- Good Energy United Utilities
- Cyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen
- Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot YOVO a Junior YOVO
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (NPTPSB)
- Cyngor Tref Castell-nedd
- Network Rail Ltd
- Network Rail Infrastructure Ltd (Western and Wales) Property
- Cymdeithas Tai Newydd
- O2
- Cyngor Cymuned Bro Ogwr
- Cyngor Cymuned Onllwyn
- Cyngor Cymuned Pelena
- Grŵp Pobl
- Cyngor Tref Pontardawe
- Cyngor Sir Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Cymuned y Pîl
- Cyngor Cymuned Cwarter Bach
- Cyngor Cymuned Resolfen
- Cyngor Cymuned y Rhigos
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Senedd Cymru
- Cyngor Cymuned Blaendulais
- SSE/SWALEC
- Cyngor Cydraddoldeb Hil Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cyngor Abertawe
- Tai Gwalia
- Tai Tarian
- Cyngor Cymuned Tawe Uchaf
- Tesco Mobile LMT
- Cyngor Cymuned Tonna
- Twristiaeth Cymru
- Trafnidiaeth Cymru (TfW)
- Utilita Energy
- Virgin Media
- Croeso Cymru

- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Y Swyddfa Gartref
- Hutchinson 3 G UK Ltd
- Linc Cymru
- Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf
- Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol
- Cyngor Tref Maesteg
- Cyngor Cymuned Mawr
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)
- Y Grid Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Vodafone Group plc
- Wales & West Utilities Ltd
- Llywodraeth Cymru
- Ystadau Iechyd Cymru
- Western Power
- Cyngor Cymuned Ystalyfera
- Cyngor Cymuned Ystradfellte
- Cyngor Tref Ystradgynlais

## Atodiad H – Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Eraill

### Cyrff Ymgynghori Cyffredinol (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 CDLliau)

H.1 Y canlynol yw'r 'cyrff ymgynghori cyffredinol' y dylid ymgynghori â nhw yn unol â Chytundeb Cyflawni awdurdod:

i. Cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu'r cyfan o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod

ii. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr awdurdod

iii. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr awdurdod

iv. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr awdurdod

v. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhedeg busnes yn ardal yr awdurdod

vi. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod

Isod ceir rhestr Cyngor Castell-nedd Port Talbot o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol

- Gweithredu dros Blant (Action for Children)
- Dysgu i Oedolion Cymru
- Panel Atal Troseddu Afan Tawe Nedd
- Age Connect (Concern) Castell-nedd Port Talbot
- Aggregates Industries UK Ltd
- Cyswllt Busnes
- Busnes mewn Ffocws
- Busnes Cymru
- Calan D V S

- Glandŵr Cymru
- Canolfan Maerdy
- Siambr Wales
- Comisiynydd Plant Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor ar Bopeth (CNPT)
- Yr Awdurdod Glo
- Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
- Coed Cymru
- Consortiwm Bywydau Cymunedol
- Conffederasiwn Diwydiant Prydain
- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cyf. (CLACymru)
- Yr Ymgyrch er Diogelu'r Gymru Wledig (CPRW)
- Dansa Ltd
- Dewis Ltd
- Esgobaeth Mynyw
- Anabledd Cymru
- Gweithdai DOVE
- Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST)
- Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig
- Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

- Ffederasiwn Meistri Adeiladu Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
- Fields in Trust Cymru
- Y Gymdeithas Cludo Nwyddau
- Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg/Gwent
- Cŵn Tywys
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) Cymru
- Canolfan Byd Gwaith
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Fforwm Mynediad Lleol (LAF)
- Aelodau Seneddol (MPs) Castell-nedd Port Talbot
- Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cymdeithas Cynnyrch Mwynau
- Cyngor Mwslimiaid Cymru
- Undeb Ffermwyr Cenedlaethol (NFU) Cymru
- Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt â Sipsiwn
- Cyngor Masnach Castell-nedd a'r Ardal

- Clybiau Ffermwyr Ifanc Castell-nedd a'r Ardal (CFfI)
- Trafnidiaeth Gymunedol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)
- YMCA Castell-nedd
- Sandfields, Aberafan ac Afan Newydd – Adfywio Cymunedol
- Fforwm Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot
- Cymdeithas Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
- Cylchdaith Fethodistaidd Castell-nedd Port Talbot
- Cymdeithas Mind Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot - YOVO a YOVO Junior
- Ymddiriedolaeth Camlesi Nedd a Thenant
- Y Gynghrair Pobl Hŷn
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymorth Cynllunio Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Princes Trust
- Fforwm Landlordiaid Preifat
- Ramblers Association
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) (Action for Hearing Loss)

- Cyngor Hil Cymru
- Y Grŵp Nwyddau ar y Rheilffordd
- Cymdeithas Renewable UK
- Cymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd
- Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion a Chofebau Hanesyddol Cymru
- Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Rhaglen Wirfoddoli Trigolion a Defnyddwyr Gwasanaeth (RSVP) Cymru
- RSPB Cymru
- Byddin yr Iachawdwriaeth
- Aelodau Senedd (AS) CNPT a Rhanbarth y De-orllewin
- Scope
- Shelter Cymru
- Urdd Siewmyn Prydain Fawr (Cymru)
- Heddlu De Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Siambr Fasnach De Cymru
- Fforwm Economaidd De Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Stonewall Cymru
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Cymdeithas Camlas Abertawe

- Cynulliad Hebreig Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- Tata Steel
- Cyngor y Sipsiwn
- Cymdeithas Porthladdoedd Prydain
- Undeb y Bedyddwyr a’r Eglwysi Cymunedol
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr
- Cymdeithas Lles yr Henoed Pontardawe
- Cymorth i Fenywod Thrive
- Prosiect Diwygio Cyfraith Teithwyr
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Prifysgol Fetropolitan Abertawe)
- Viva Port Talbot (Rhanbarth Gwella Busnes Port Talbot)
- Cyngor Pobl Fyddar Cymru
- Cyngor y Deillion Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Cymorth i Fenywod Cymru
- Cymdeithas Allforwyr Gorllewin Cymru
- Gweithffyrdd
- Menter Ifanc (De a Chanolbarth Cymru)
- Cymru Ifanc

- Mynediad Ieuenctid (Youth Access)
- Youth Cymru
- Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera

## Cyrff Ymgynghori Eraill

**CYRFF YMGYNGHORI ERAILL**

H.2 Cyrff Ymgynghori Eraill (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 CDLliau)

Dylai awdurdod ystyried hefyd yr angen am ymgynghori, lle bo hynny'n briodol, â'r asiantaethau a'r sefydliadau canlynol, yn unol â'i Gytundeb Cyflawni:

- Gweithredwyr Meysydd Awyr
- Arolwg Daearegol Prydain
- Canolfan Ecoleg a Hydroleg
- Awdurdod Awyrennau Sifil
- Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
- Swyddfa Ystâd y Goron
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Y Comisiwn Hawliau Anabledd
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Un Llais Cymru
- Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu
- Cyrff Proffesiynol sydd heb eu rhestru'n benodol
- Cymdeithas Cynhyrchion Chwarel Cymru

- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (yn cynrychioli'r diwydiant gwastraff)
- Gweithredwyr Gwasanaethau Bws

H.3 Isod ceir rhestr Cyngor Castell-nedd Port Talbot o Gyrff Ymgynghori Eraill:

- Arolwg Daearegol Prydain
- Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf.
- Canolfan Ecoleg a Hydroleg
- Awdurdod Awyrennau Sifil
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Y Comisiwn Hawliau Anabledd
- DJ Thomas Coaches
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- First Buses Ltd
- First Group
- General Aviation Awareness Council
- National Express
- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Cynhyrchion Chwarel Cymru
- Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru (RICS)
- Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi Cymru (RTPI)
- Diogel trwy Ddyluniad, Heddlu De Cymru

- South Wales Transport
- Stagecoach Wales
- Ystâd y Goron
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru Cyf.

## Atodiad I – Asesu a Lliniaru Risg

Tabl I.0.1 Rheoli Risg

| Risg | Effeithiau Posibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Gofynion ychwanegol o ganlyniadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau neu ddata / rhagfynegiadau newydd | Gwaith ychwanegol sy'n ofynnol, gan achosi llithro yn y rhaglen | Canolig | Monitro deddfwriaeth / canllawiau / data sy'n dod i'r amlwg ac asesu'r angen am adnoddau ychwanegol |
| Colli/newid adnoddau staff | Llithro yn y rhaglen | Canolig | Ystyried amnewid adnoddau staff<br><br>Monitro / hysbysebu swyddi gwag |
| Ymwneud â pharatoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) | Llithro yn y rhaglen. Goblygiadau o ran adnoddau a hyd a lled y mewnbwn i'r CDS yn anhysbys ar hyn o bryd. | Canolig/Uchel | Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, gyda chefnogaeth gorfforaethol i broses y CDS a'r amserlen o'r cychwyn. |
| Adolygu'r CDLIA yn sgîl gofyniad i alinio â CDS De-orllewin Cymru | Llithro yn y rhaglen | Isel | Sicrhau ymwneud â chynnydd gwaith rhanbarthol<br><br>Parhau mewn cysylltiad â LlC |

| Risg | Effeithiau Posibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Angen am ymchwil / ymgynghori ychwanegol | Llithro yn y rhaglen | Isel/Canolig | Nodi / comisiynu gwaith ychwanegol sy’n angenrheidiol cyn gynted â phosibl |
| Oedi yn sgîl argraffu / cyfieithu | Llithro yn y rhaglen | Isel | Ystyried adnoddau ychwanegol |
| Amserlen yn rhy uchelgeisiol oherwydd llwyth gwaith mwy na’r disgwyl | Llithro yn y rhaglen | Canolig | Paratoi amserlen realistig gyda rhywfaint o hyblygrwydd<br><br>Ystyried adnoddau ychwanegol |
| Gwrthwynebiadau sylweddol gan Gyrff Ymgynghori Statudol | Methu cyflwyno’r CDLIA i’w archwilio heb waith sylweddol | Isel/canolig | Sicrhau bod barn Cyrff Statudol yn cael ei cheisio/hystyried cyn gynted â phosibl |
| Nifer fawr a/neu lefelau arwyddocaol iawn yn gwrthwynebu cynigion e.e. dyraniadau safle | Llithro yn y rhaglen | Isel/canolig | Sicrhau cyswllt ac ymwneud agos â rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses |
| Prinder adnoddau ariannol a gostyngiad ynddyn nhw | Llithro yn y rhaglen | Isel/canolig | Cyllid digonol wedi’i ddyrannu yn y gronfa wrth gefn ar gyfer y CDLlA |

| Risg | Effeithiau Posibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Yr Arolygiaeth Gynllunio yn methu cadw at yr amserlen ofynnol ar gyfer archwilio/adrodd | Oedi gyda'r archwiliad/ adroddiad | Isel | Cadw mewn cysylltiad agos â'r Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau rhybudd cynnar ynghylch unrhyw broblemau posibl |
| Y CDLl yn methu prawf cadernid | Ni ellir symud ymlaen i fabwysiadu'r CDLlA | Isel/canolig | Sicrhau bod y CDLlA yn gadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn, gydag ACI ac archwiliad da o sut cafodd rhanddeiliaid/y gymuned eu cynnwys |
| Her ynghylch hygyrchedd dogfennau, y wefan ac apiau. | Ceir bod y Cyngor wedi torri Deddf Cydraddoldeb 2010. | Isel/canolig | Sicrhau bod y dogfennau a'r wefan yn dilyn canllawiau'r Cyngor. |
| Her gyfreithiol | Caiff y CDLlA a fabwysiadwyd ei wrthod/mae angen gwaith ychwanegol | Isel | Sicrhau bod y CDLlA yn cydymffurfio â rheoliadau, deddfwriaeth etc |
| Newid arweinyddiaeth wleidyddol/gweinyddiaeth y Cyngor | Ni fydd y weinyddiaeth newydd yn cymeradwyo'r CDLlA trwy | Canolig | Sicrhau cyswllt ac ymwneud agos â Phrif Swyddogion ac Aelodau Etholedig ar |

| Risg | Effeithiau Posibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Benderfyniad Cyngor | | hyd y broses o lunio'r cynllun. |
| Oedi oherwydd yr angen am farn gyfreithiol gan Fargyfreithiwr neu Gwnsler y Brenin | Llithro yn y rhaglen/ angen gwaith ychwanegol | Canolig | Sicrhau yr ymgynghorir â'r tîm cyfreithiol yn gynnar i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r canllawiau |
| Cyfarwyddyd gan Ysgrifennydd Cabinet LlC i baratoi Cynllun ar y Cyd | Byddai'r gwaith ar y CDLlA unigol hyd yma yn cael ei ddiddymu | Isel | Sicrhau cyswllt agos â LlC |
| Oedi a achosir gan strwythur gwneud penderfyniadau'r Cyngor | Llithro yn y rhaglen | Canolig | Monitro cynnydd yn erbyn y Cytundeb Cyflawni |
| Pandemig Covid-19 | Cyfyngu ar ymgysylltu ac argaeledd copïau papur o ddogfennau allweddol | Isel | Parhau i fonitro cyfnodau clo a chyfyngiadau pellter cymdeithasol a'r effaith bosibl ar ymgysylltu a chydymffurfio â Rheoliadau CDLliau. |

**Cliciwch ar y cod QR isod am wybodaeth bellach**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council